Dogfen ir Cyhoedd

Mr Dylan J. Williams
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | NOTICE OF MEETING |
|---|---|
| **PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO** | **PARTNERSHIP AND REGENERATION SCRUTINY COMMITTEE** |
| **DYDD MAWRTH,<br>14 HYDREF, 2025 am 2.00 o'r gloch yp** | **TUESDAY,<br>14 OCTOBER, 2025 at 2.00 pm** |
| **CYFARFOD HYBRID – YN YSTAFELL BWYLLGOR, SWYDDFEYDD Y CYNOGR, LLANGEFNI AC YN RHITHIOL DRWY ZOOM** | **HYBRID MEETING – IN COMMITTEE ROOM , COUNCIL OFFICES, LLANGEFNI AND VIRTUALLY THORUGH ZOOM** |
| **Swyddog Pwyllgor**   **Mrs. Mairwen Hughes 01248 752518** | **Committee Officer** |

**ELODAU / MEMBERS**
Cynghorwyr / Councillors:-
**Y Grwp Annibynnol / The Independent Group**

Gwilym O Jones **(Is-gadeirydd/Vice-Chair)**

**Plaid Cymru / The Party of Wales**

Non Dafydd, Euryn Morris, John Ifan Jones, Dylan Rees **(Cadeirydd/Chair),** Margaret M Roberts, Ken Taylor, Sonia Williams

**Annibynnwyr Môn/Anglesey Independents**

Douglas Fowlie; Derek Owen, Liz Wood

**Llafur Cymru/Welsh Labour**

Pip O'Neill

**Aelodau Ychwanegol/Additional Members (gyda hawl pleidleisio ar faterion addysg/with voting rights in respect of educational matters)**

**Mrs Wenda Owen- (Yr Eglwys yng Nghymru/The Church in Wales), Kathryn Seeney - (Rhiant Llywodraethwr – Sector Ysgolion Cynradd/Parent Governor – Primary Schools Sector) Christina Williams -(Rhiant Llywodraethwyr – Sector Ysgolion Uwchradd ac ADY/Parent Governor – Secondary Schools Sector and ALN) Mr John Tierney (Yr Eglwys Babyddol Rufeinig/The Roman Catholic Church)**

**Aelod Cyfetholedig/Co-opted Member (Dim Hawl Pleidleisio/No Voting Rights)**
Mr. Dafydd Gruffydd ( Rheolwr Gyfarwyddwr/Managing Director - Menter Môn)

***Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cytunedig yr Awdurdod***

**R H A G L E N**

**1** **YMDDIHEURIADAU**

**2** **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

**3** **COFNODION** (Tudalennau 1 - 6)

Cyflwyno, i'w cadarnhau, gofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 16 Medi, 2025.

**4** **CRAFFU PARTNERIAETHAU STRATEGOL - MENTER MÔN** (Tudalennau 7 - 32)

Derbyn cyflwyniad gan Menter Môn.

**5** **ADRODDIAD BLYNYDDOL PARTNERIAETH DIOGELWCH CYMUNEDOL GWYNEDD AC YNYS MÔN: 2024/25** (Tudalennau 33 - 44)

Cyflwyno adroddiad gan y Dirprwy Brif Weithredwr.

**6** **BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR - 2025/2026** (Tudalennau 45 - 52)

Cyflwyno adroddiad gan y Rheolwr Sgriwtini.

# PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO

## Cofnodion y cyfarfod hybrid a gynhaliwyd ar 16 Medi 2025

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Dylan Rees (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Gwilym O Jones (Is-gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Douglas M Fowlie, Euryn Morris, Pip O'Neill, Derek Owen, Margaret Murley Roberts, Ken Taylor a Sonia Williams<br><br>Mr John Tierney - Yr Eglwys Gatholig Rufeinig<br><br>Ms Kathryn Seeney - Rhiant Lywodraethwr - Sector Ysgolion Cynradd<br>Ms Christina Williams - Rhiant Lywodraethwr - Sector Ysgolion Uwchradd ac ADY |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr,<br>Dirprwy Brif Weithredwr,<br>Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc<br>Pennaeth Democratiaeth,<br>Rheolwr Sgriwtini (AD)<br>Swyddog Pwyllgor (MEH),<br>Swyddog Gweddarlledu Gwasanaeth Pwyllgorau (FT). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr Non Dafydd, John Ifan Jones a Liz Wood<br><br>Y Cynghorydd Dyfed W Jones - Aelod Portffolio Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd;<br>Y Cynghorydd Dafydd Roberts - Aelod Portffolio Addysg a'r Gymraeg;<br>Y Cynghorydd Robin Williams - Dirprwy Arweinydd ac Aelod Portffolio Cyllid a Gwasanaethau Tai.<br><br>Mrs Wenda Owen - Yr Eglwys yng Nghymru |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | **Aelodau Portffolio**<br><br>Y Cynghorydd Gary Pritchard - Arweinydd y Cyngor ac Aelod Portffolio Datblygu Economaidd;<br>Y Cynghorydd Neville Evans - Aelod Portffolio Hamdden, Twristiaeth a Morwrol;<br>Y Cynghorydd Alun Roberts - Aelod Portffolio Gwasanaethau Oedolion a Diogelwch Cymunedol;<br>Y Cynghorydd Nicola Roberts - Aelod Portffolio Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Newid Hinsawdd. |

Croesawodd y Cadeirydd Ms Kathryn Seeney - Rhiant Lywodraethwr - Sector Ysgolion Cynradd, a Ms Christina Williams - Rhiant Lywodraethwr Uwchradd ac ADY i'r cyfarfod. Pleidleisiodd y Pwyllgor i dderbyn penodiad y ddau Rhiant Lywodraethwr ar y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio.

**1 YMDDIHEURIADAU:**

Fel y nodir uchod.

**2 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Bu i'r Cynghorydd Douglas M Fowlie ddatgan diddordeb personol mewn perthynas ag eitem 5 - Cydweithio â Choleg Menai, gan fod aelod o'i deulu'n cael ei gyflogi gan Grŵp Llandrillo Menai.

**3 COFNODION**

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 15 Gorffennaf 2025 yn gywir.

**4 CYDWEITHIO Â PHRIFYSGOL BANGOR**

Croesawodd y Cadeirydd yr Is-Ganghellor Edmund Burke, yr Athro Paul Spencer, yr Athro Enlli Thomas a Mr Chris Drew i'r cyfarfod.

Rhoddodd gynrychiolwyr o Brifysgol Bangor gyflwyniad cryno i weddill y cyfarfod yn amlinellu gwaith y Brifysgol a'r trefniadau gwaith gyda'r awdurdod lleol i ddarparu prosiectau arloesol ar yr Ynys. Atodwyd copi o'r cyflwyniad i agenda'r cyfarfod hwn.

Yn dilyn y cyflwyniad, codwyd y pwyntiau trafod a ganlyn gan y Pwyllgor:

- Gofynnwyd cwestiynau ynghylch sut mae'r cyfyngiadau ariannol presennol yn effeithio ar amrywiaeth o gyrsiau'n cael eu cynnig ym Mhrifysgol Bangor, ac i ba raddau mae gostyngiad yn nifer y cyrsiau'n cael eu hystyried, yn enwedig y cyrsiau hynny yn y maes Gwasanaethau Cymdeithasol. Dywedodd yr Is-ganghellor, er bod arbedion cyllidebol wedi'u gwneud, nid oes unrhyw Ysgol nag Adran wedi cau yn y Brifysgol. Nid effeithiwyd fawr ddim ar gyrsiau yn yr Ysgolion Meddygaeth ac Iechyd, Gwyddoniaeth a Pheirianneg. Mae gostyngiad sylweddol wedi bod yn nifer y cyrsiau sydd ar gael yn yr Ysgol Gwyddorau Cymdeithasol, y Celfyddydau, Dyniaethau ac Ieithoedd Modern (mae gostyngiad yn astudiaethau rhai ieithoedd wedi'u gwneud oherwydd nifer y myfyrwyr sydd eisiau dilyn y cyrsiau hyn). Rhoddodd yr Athro Enlli Thomas sicrwydd nad oes gostyngiad wedi bod yn nifer y cyrsiau dwyieithog sy'n cael eu cynnig gan y Brifysgol, ac mae ymrwymiad i sicrhau bod cyrsiau dwyieithog yn dal i gael eu cynnig.
- Cyfeiriwyd at yr angen am gyrsiau Therapi Galwedigaethol a Seicoleg Addysgol gan fod prinder staff dwyieithog cymwys yn ymgeisio am swyddi gydag awdurdodau lleol. Cyfeiriodd yr Athro Enlli Thomas at y prinder gweithwyr

Seicoleg Addysgol a Therapi Galwedigaethol proffesiynol cymwys, dwyieithog, ac er bod angen buddsoddiad ariannol i gynnal y cyrsiau hyn, mae'r Brifysgol yn barod i drafod gydag awdurdodau lleol yn y rhanbarth.

- Er y croesewir yr Ysgol Feddygol a Hylendid Deintyddol ym Mhrifysgol Bangor, codwyd cwestiynau ynghylch a yw'r myfyrwyr sy'n hyfforddi yn aros yn yr ardal leol. Dywedodd Mr Chris Drew o hanner y myfyrwyr, sef 20, fod 10 wedi cael gwaith gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, a bod 10 wedi cael gwaith gyda'r GIG yng Nghymru. Nododd fod Cwrs Sylfaen wedi'i sefydlu er mwyn cyflwyno llwybr i fyfyrwyr o Gymru ymuno â'r rhaglen feddygaeth. Mae'n fwy heriol cadw myfyrwyr i weithio yn y sector deintyddol o fewn y GIG gan fod y sector preifat yn gallu fforddio buddion ar gyfer deintyddion. Dywedodd yr Is-ganghellor fod gwaith yn mynd rhagddo i gyflwyno Ysgol Deintyddiaeth yn y rhanbarth.
- Holwyd am ganran y myfyrwyr o ogledd Cymru sy'n astudio ym Mhrifysgol Bangor. Dywedodd yr Is-ganghellor fod cynnydd wedi bod yn nifer y myfyrwyr o ogledd Cymru sy'n dewis astudio ym Mhrifysgol Bangor, o ganlyniad i gynrychiolwyr o'r Brifysgol yn mynychu ysgolion a cholegau lleol i amlygu'r buddion o astudio ym Mhrifysgol Bangor. Mae bron i 1,500 o fyfyrwyr o ogledd Cymru a 781 o ogledd-ddwyrain Cymru.
- Gofynnwyd cwestiynau ynghylch sut mae'r Brifysgol yn alinio'r cryfderau ymchwil gyda'r sgiliau sydd eu hangen ar bobl ifanc a chyflogwyr lleol. Dywedodd Paul Spencer fod trafodaethau'n mynd rhagddynt gyda chyflogwyr mawr mewn perthynas â'r budd cyflenwi a drwy'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol a'r diwydiant Morwrol. Mae gwaith hefyd yn mynd rhagddo gydag awdurdodau lleol mewn perthynas â datblygiadau mawr posibl yn y rhanbarth.
- Gofynnwyd cwestiynau ynghylch sut all y Brifysgol a Grŵp Llandrillo Menai weithio gyda'i gilydd i fynd i'r afael â'r bwlch sgiliau yn y rhanbarth yn enwedig yn y sector iechyd, gofal cymdeithasol a chyfreithiol. Dywedodd yr Is-ganghellor fod gwaith sylweddol wedi digwydd rhwng y Brifysgol ac ysgolion lleol, Grŵp Llandrillo Menai, Prifysgol Wrecsam a Choleg Cambria i drafod y llwybr sydd ar gael i fyfyrwyr tuag at ofynion sgiliau ymhlith cyflogwyr lleol. Bydd angen cyllid er mwyn datblygu llwybrau myfyrwyr.
- Cyfeiriwyd at y ffaith y gall DA (Deallusrwydd Artiffisial) drawsnewid y ffordd mae llywodraeth leol yn gweithio yng Nghymru, ond mae'n hollbwysig fod yr iaith Gymraeg yn rhan o dechnoleg DA. Dywedodd yr Athro Paul Spencer y cwblheir ymchwil mewn perthynas â sut ellir darparu technegol DA yn ddwyieithog. Dywedodd y bydd trafodaethau'n mynd rhagddynt gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Chyfoeth Naturiol Cymru mewn perthynas â darpariaeth ddigidol. Gobeithir y bydd technegol DA yn cael ei ymgorffori yn y cyrsiau sydd ar gael yn y Brifysgol, ac i weithio yn agos gyda chwmnïau megis Msparc.
- Cyfeiriwyd at ffaith fod y Brifysgol wedi gorfod gwneud arbedion ariannol, gyda 200 o staff yn colli eu swyddi. Gofynnwyd a fydd datblygiad technoleg DA yn arwain at gyflogi staff cymorth yn y dyfodol. Dywedodd yr Athro Paul Spencer y bydd technoleg DA yn trawsnewid gwasanaethau yn y dyfodol, ond ei fod yn hollbwysig nad yw data sy'n cael ei fewnbynnu i system DA yn mynd yn groes i ddeddfwriaeth a llywodraethiant data, a bod rhaid rhoi strwythur ar waith. Dywedodd y Prif Weithredwr fod yr Awdurdod yn edrych ar ddyfodol DA mewn gwasanaethau sy'n cael eu darparu gan y Cyngor, yn ogystal â buddsoddi yn y meysydd hynny fydd yn cael effaith ac yn cynnig buddion hirdymor. Er y

derbynnir y buddion, mae risgiau ynghlwm â seiberddiogelwch wrth golli data personol. Roedd yn croesawu trafodaethau gyda'r Brifysgol mewn perthynas â dyfodol DA.

- Gofynnwyd a oes gan y Brifysgol bolisi recriwtio a chanran y siaradwyr Cymraeg sy'n gweithio i'r Brifysgol. Dywedodd yr Athro Enlli Thomas fod 43% o weithwyr yn siaradwyd Cymraeg rhugl a bod 20% ychwanegol yn meddu ar sgiliau iaith Gymraeg ac yn dysgu Cymraeg. Mae gan y Brifysgol bolisi recriwtio gyda thair strwythur gwahanol yn amlinellu'r gallu ieithyddol ar gyfer bob swydd. Nododd fod y polisi recriwtio yn cael ei adolygu ei mwyn cryfhau'r polisi o ran sgiliau iaith Gymraeg.
- Gofynnwyd sut mae colli cyllid o Ewrop wedi effeithio ar y Brifysgol. Dywedodd yr Is-ganghellor fod y Brifysgol wedi colli £10m o gyllid strwythurol Ewropeaidd. Dywedodd yr Athro Paul Spencer fod rhan helaeth o'r gronfa strwythurol Ewropeaidd yn cael ei ddefnyddio i gefnogi gwaith adeiladu ac adnewyddu, a diweddaru offer yn Msparc, Gaerwen. Dywedodd ei fod wedi dod yn fwy cystadleuol i ddod o hyd i gyllid gan y Llywodraeth ar gyfer Prifysgolion.
- Gofynnwyd sut mae'r Brifysgol yn alinio ei gyrsiau er mwyn cefnogi'r sgiliau a'r cymwysterau sydd eu hangen ar gyfer swyddi'n ymwneud â'r Porthladd Rhydd. Dywedodd yr Athro Paul Spencer fod hynny'n dibynnu ar y math o fusnesau fydd yn cael eu denu i'r Porthladd Rhydd. Mae cyrsiau datblygu sgiliau digidol a sgiliau'r sector ynni ar gael yn y Brifysgol. Bydd gwaith yn mynd rhagddo gyda Cholegau lleol fydd yn gallu fforddio prentisiaethau ar gyfer pobl ifanc. Dywedodd y Prif Weithredwr y bydd cyfleoedd ar gael yn y maes Peirianneg a Technegol. Dywedodd fod y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth wedi'i lofnodi ar gyfer statws y Porthladd Rhydd gyda chyfanswm o £25 miliwn yn cael ei gyfrannu a'i ddefnyddio i adeiladu ar Safleoedd Msparc a Peboc, ac i wneud gwelliannau ar strwythur y ffordd yng ngogledd yr Ynys. Gofynnwyd cwestiynau pellach ynghyd a fydd DA yn effeithio ar gyfleoedd gwaith sy'n gysylltiedig â'r Porthladd Rhydd. Dywedodd y Prif Weithredwr y bydd Canolfannau Data'n cael eu codi ledled Prydain, a bydd parc technegol yn dod i hen safle Anglesey Aluminium yng Nghaergybi.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Is-ganghellor a'r cynrychiolwyr o'r Brifysgol am fynychu'r cyfarfod.

**PENDERFYNWYD nodi'r sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y drafodaeth.**

## 5 CYDWEITHIO Â GRWP LLANDRILLO MENAI

Croesawodd y Cadeirydd Mr Aled Jones-Griffith, Prif Weithredwr Grŵp Llandrillo Menai i'r cyfarfod.

Cafwyd cyflwyniad yn ystod y cyfarfod gan Mr Aled Jones-Griffith, Prif Weithredwr Grŵp Llandrillo Menai yn amlinellu gwaith a wnaed gan y coleg drwy drefniadau cydweithio gyda'r awdurdod lleol i ddarparu prosiectau arloesol ar yr Ynys. Atodwyd copi o'r cyflwyniad i agenda'r cyfarfod hwn.

Yn dilyn y cyflwyniad, codwyd y pwyntiau trafod a ganlyn gan y Pwyllgor:

- Nodwyd bod diffyg crefftwyr yn y diwydiant adeiladu. Gofynnwyd gwestiynau am gyfanswm y bobl ifanc sy'n mynychu cyrsiau adeiladu yn y Coleg, ac a oes unrhyw enethod yn dangos diddordeb yn y cwrs. Dywedodd Mr Jones-Griffith fod gostyngiad wedi bod yn nifer y myfyrwyr sy'n dilyn cyrsiau adeiladu yn y Coleg, gan ei bod yn heriol cael prentisiaethau ar gyfer y bobl ifanc hyn. Dywedodd fod denu genethod i'r diwydiant yn her. Cynigiwyd cwrs STEM gyfochr â chwrs adeiladu ychydig flynyddoedd yn ôl gyda chefnogaeth yr awdurdod lleol. Dywedodd y byddai'n rhannu niferoedd y bobl sy'n dilyn cyrsiau adeiladu i aelodau'n fuan. Gofynnwyd cwestiynau pellach ynghylch a yw Grŵp Llandrillo Menai yn mynychu ysgolion uwchradd i dynnu sylw at y cwrs adeiladu sydd ar gael. Dywedodd Mr Jones-Griffith fod trafodaethau'n mynd rhagddynt gyda'r awdurdod lleol a Chonsortia Addysgiadol Gwynedd a Môn, mewn perthynas â darpariaeth 14 i 16. Cyfeiriodd at y Dystysgrif Alwedigaethol fydd ar gael yn 2027, fydd yn galluogi myfyrwyr i astudio pynciau galwedigaethol ynghyd â TGAU. Nododd fod y cyfleusterau ar gael yn y Coleg heb i ysgolion uwchradd orfod buddsoddi mewn darpariaeth o'r fath.
- Gofynnwyd cwestiynau am weledigaeth Grŵp Llandrillo Menai mewn perthynas ag addysg ôl-16 ar Ynys Môn. Dywedodd Mr Jones-Griffith fod trafodaethau'n parhau gyda'r awdurdod lleol i sicrhau fod mynediad at gyrsiau galwedigaethol, lefel A a phrentisiaethau yn y Coleg. Nododd fod modelau gwahanol mewn perthynas ag addysg ôl-16 ledled y wlad, gyda nifer o opsiynau ar gael. Mae nifer o gyrsiau lefel A ar gael ar gampws Llangefni ar gyfer myfyrwyr, gyda'r mwyafrif yn cael eu darparu drwy'r Gymraeg. Gofynnwyd cwestiynau pellach ynghylch canran y bobl ifanc sy'n dilyn cyrsiau lefel 'A' yng Ngholeg Menai ac a all y Coleg fod yn gyfrifol am ddarparu addysg ôl-16 ar Ynys Môn. Dywedodd Mr Jones-Griffith fod 30 myfyriwr yn astudio cyrsiau UG a bod 20 myfyriwr yn astudio cyrsiau lefel A yn Coleg Menai eleni. Dywedodd bod lle ar gyfer cyfleuster addysg ôl-16 ar gampws Coleg Menai, Llangefni a byddai Grŵp Llandrillo Menai'n barod i drafod unrhyw opsiynau eraill pe byddai darpariaeth bellach yn dod i'r Ynys. Gall y Coleg gynnig astudiaethau galwedigaethol ynghyd â chyrsiau lefel A i fyfyrwyr.
- Cyfeiriwyd at safle Wylfa a'r posibilrwydd am gyfleoedd gwaith os gwneir cyhoeddiad y bydd darpariaeth niwclear ar y safle. Nodwyd bod Rolls-Royce, y partner a ffafrir ar gyfer SMRau posibl ar y safle, wedi dweud y byddant yn hyfforddi gweithwyr posibl yn fewnol yn hytrach na'u hyfforddi mewn Colegau lleol. Dywedodd Mr Jones-Griffith fod trafodaethau wedi bod yn mynd rhagddynt gyda Rolls-Royce yn pwysleisio'r angen i ddarparu cyfleoedd hyfforddiant yn lleol drwy Brifysgol Bangor a Grŵp Llandrillo Menai.
- Cyfeiriwyd at ddarparu hyfforddiant yn Gymraeg i bobl ifanc mewn perthynas â chyfleoedd gwaith lleol posibl. Nodwyd y bydd hyn yn cefnogi pobl ifanc lleol i aros ar yr Ynys. Gofynnwyd cwestiynau ynghylch faint o amser a gymerir i hyfforddi pobl ar gyfer y swyddi posibl hyn. Dywedodd Mr Jones-Griffith ei fod yn cymryd oddeutu 3 mlynedd i hyfforddi pobl ac mae gan fusnesau megis Rolls-Royce eu rhaglenni hyfforddi eu hunain.
- Gofynnwyd cwestiynau ynghylch faint o fyfyrwyr sy'n astudio Peirianneg Forwrol a Thechnoleg Forwrol. Dywedodd Mr Jones-Griffith y byddai'n darparu'r wybodaeth i Aelodau'n fuan. Gofynnwyd cwestiynau pellach ynghylch cludo myfyrwyr i ddilyn cyrsiau ar gampws Grŵp Llandrillo Menai. Dywedodd Mr Jones-Griffith bod cludiant ôl-16 ar gael i fyfyrwyr fynychu cyrsiau. Dywedodd fod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi y gall pobl ifanc rhwng 16 a

21 oed deithio am £1 bob ffordd ledled Cymru er mwyn mynychu cyrsiau coleg o fis Medi 2025 ymlaen.

Diolchodd y Cadeirydd i Mr Alwed Jones-Griffith, Prif Weithredwr Grŵp Llandrillo Menai am fynychu'r cyfarfod.

**PENDERFYNWYD nodi'r sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y drafodaeth.**

## 6 AELODAETH PANELAU SGRIWTINI

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Rheolwr Sgriwtini.

Dywedodd y Pennaeth Democrataidd fod yr Arweinyddion Grŵp wedi cytuno y dylai'r 3 Panel Sgriwtini fod yn gytbwys yn wleidyddol. Adolygwyd Cylch Gorchwyl y 3 Panel Sgriwtini ac maent wedi'u hatodi i'r adroddiad. Dywedodd fod y ddau Bwyllgor Sgriwtini angen enwebu 1 Aelod i wasanaethu ar y Grŵp Llywio Iaith Gymraeg a Chydraddoldeb.

**PENDERFYNWYD :-**

- **Cytuno ar drefn aelodaeth ddiwygiedig ar gyfer y 3 Phanel Sgriwtini yn seiliedig ar gydbwysedd gwleidyddol cyfredol y Cyngor;**
- **Cytuno Cylch Gorchwyl ar gyfer y 3 Phanel Sgriwtini;**
- **Bod y Cynghorydd Non Dafydd yn cael ei henwebu gan y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio i wasanaethu ar y Grŵp Llywio'r Gymraeg a Chydraddoldeb.**

## 7 BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR 2025/2026

Cyflwynwyd, i'r Pwyllgor ei ystyried, adroddiad y Rheolwr Sgriwtini a oedd yn manylu ar Flaen Raglen Waith y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio ar gyfer 2025/2026.

**PENDERFYNWYD cytuno'r fersiwn gyfredol o'r Flaen Raglen Waith ar gyfer 2025/26, gan gynnwys y newidiadau a nodwyd.**

Daeth y cyfarfod i ben am 4.00 pm

**Y CYNGHORYDD DYLAN REES**

**CADEIRYDD**

**CYFLWYNIAD I BWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO**

**1.Cyflwyniad i Menter Môn**

Sefydlwyd Menter Môn yn 1995 i wireddu cynllun LEADER oedd yn ceisio datblygu datrysiadau i heriau cefn gwlad.

Mae'r cwmni wedi datblygu dros y blynyddoedd, gan ymgymryd â chynlluniau rhanbarthol a chenedlaethol, ond mae ystod a phwyslais y gwaith ar Ynys Môn wedi parhau yn gyson. Mae cynlluniau fel Afonydd Menai, sy'n gwarchod cynefinoedd y Llygoden Ddŵr, gwaith y Fenter Iaith, cynnal Castell Aberlleiniog, cynnal Theatr Ieuenctid Môn a Gŵyl Cefni yn dyst i hyn.

Mae'r cwmni yn cyflogi 80 o bobl, sy'n gweithio ar gynlluniau a chytundebau sy'n amrywio o gymorth busnes, ynni adnewyddol, i warchod rhywogaethau naturiol a technoleg SMART. Rydym yn gyflogwr pwysig yn yr ardal, sy'n rhoi pwyslais ar y Gymraeg o fewn cynlluniau ac o fewn y gweithle – fel mae Cyngor Sir Ynys Môn.

Mae llawer o'r gwaith sy'n cael ei wneud yn ranbarthol a chenedlaethol trwy gytundeb, gyda unrhyw 'elw' yn cael gadw o fewn y cwmni i gynnal ei weithgareddau craidd. Un enghraifft ydi cytundeb Busnes Cymru, sef gwasanaeth cymorth busnes Llywodraeth Cymru, sy'n cael ei wireddu ar y cyd gyda chwmni Business in Focus, sydd wedi ei lleoli yn ne Cymru, ac M-SParc. Er yn wasanaeth cenedlaethol, mae mantais i Ynys Môn fod cwmni lleol yn gwireddu'r cynllun. Drwy hyn, rydym yn medru sicrhau fod busnesau lleol yn cael y budd llawn o'r gwasanaeth.

Un o'r cynlluniau mwyaf adnabyddus yw Morlais, sy'n ceisio ychwanegu gwerth i'r llanw a sicrhau budd i Fôn trwy greu swyddi, cefnogi cadwyni cyflenwi a chynhyrchu incwm i waith cymunedol Menter Môn. Gall gynhyrchu hyd at 240MW o ynni adnewyddol, ond mae llawer mwy i Morlais na'r MW's. Yn sgil Morlais rydym wedi datblygu arbenigedd o fewn y maes ynni, ac yn edrych i ddatblygu cynlluniau eraill o fewn y sector gan gadw'r budd yn lleol.

**2. Gweledigaeth Menter Môn**

Credwn fod y pethau sy'n ein gwneud nin wahanol yn ein gwneud ni'n ddiddorol, yn cryfhau ein hunaniaeth ac yn meithrin gwytnwch. Mae hyn yr un mor bwysig i ni heddiw ag yr oedd pan sefydlwyd Menter Môn dros 30 mlynedd yn ôl.

Mae'r byd wedi newid yn sylweddol ers 1995, ac felly hefyd yr heriau sy'n wynebu ein cymunedau. Mae Menter Môn wedi gorfod addasu, ond mae ein hamcanion yn aros yr un fath.

Rydym yn parhau i weithio mewn partneriaeth â chymunedau, ac mae ein portffolio presennol yn cynnwys prosiectau fel amddiffyn y llygoden ddwr, adnewyddu Castell Aberlleiniog a dod ag asedau yn ôl i berchnogaeth leol. Rydym yn cydnabod bod gan yr economi rôl bwysig o ran cynnal cymunedau hyfyw hefyd. Mae'r budd ar ei fwyaf pan


fydd prosiect yn perthyn ac yn cael ei redeg yn lleol. Am y rheswm hwn, rydym yn arwain ar fentrau sy'n cefnogi'r economi yn ogystal â datblygu ein mentrau ein hunain mewn sectorau fel ynni adnewyddadwy.

Mae'r rhain yn cyd-fynd â'n gwerthoedd fel cwmni ac yn canolbwyntio ar **ddatgloi potensial ein pobl ac adnoddau i sicrhau dyfodol ein cymunedau.**

**3. Ein Hamcanion**

Yn unigryw bron, mae Menter Môn yn gweithredu ar drws sawl sector. Rydym hefyd yn darparu ar lefel gymunedol, ranbarthol a strategol. Mae hyn yn galluogi i adnabod, creu a gweithredu ary cyfleoedd i gyrraedd a chyflawni'r amcanion canlynol:

- Cefnogi a meithrin pobl
- Cryfhau'r economi
- Gwella'r amgylchedd
- Bywiogi ein diwylliant




**4. Prif Feysydd Gweithredu**

Mae prosiectau Menter Môn yn cael eu cyflawni gyda'r bwroiad o integreiddio a chyfrannu'n gadarnhal tuag at bob un o'n hamcanion. Mae rhain yn cael eu crynhoi i dri faes gweithredu

- **Creu Cymunedau Bywiog:** Helpu cymunedau i ffynnu yw'r sylfaen mae Menter Môn wedi cael ei hadeiladu arni. Rydym yn cefnogi cymunedau bywiog, lle mae'r Gymraeg yn ffynnu, lle mae amgylchedd iach, a lle mae pobl ifanc dalentog yn cael eu cyflogi mewn swyddi o ansawdd uchel.

- **Hyrwyddo Ynni Adnewyddadwy:** Mae ein prosiectau ynni adnewyddadwy yn ategu at ein gwaith cadwraeth ac amgylcheddol Menter Môn ac yn diogelu'r blaned drwy fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd. Yn ogystal â chynhyrchu ynni glân, rydym hefyd yn canolbwyntio ar hybu'r economi leol a rhanbarthol, darparu cyfleoedd i bobl ifanc a sicrhau manteision i gymunedau.

- **Cryfhau'r Economi:** Mae economi gref yn sylfaen ar gyfer unrhyw ranbarth, ac mae'r budd hyd yn oed yn fwy pan mae cynllun neu prosiect yn cael ei yrru'n lleol ac o dan berchnogaeth leol.

**5. Prif Weithagreddau**

**Portffolio Cymuned** (o dan gyfrifoldeb Elen Hughes)

| Cynllun | Cyllideb | Manylion |
|---|---|---|
| Balchder Bro (gan gynnwys Menter Iaith) | £650k / flwyddyn trwy SPF a LlC | • Cefnogi cymunedau i ddathlu hunaniaeth a treftadaeth trwy ystod o ymyraethau e.e. digwyddiadau, gweithgareddau a phrosiectau peilot.<br>• Cefnogi a hyrwyddo defnydd y Gymraeg mewn grwpiau cymunedol e.e. grwpiau rhieni a babis<br>• Trefnu digwyddiadau gan gynnwys Gwyl Cefni a Gorymdeithiau Gwyl Dewi.<br>• Cydweithio gyda CSYM i gydlynu Fforwm Iaith Môn a sicrhau gweithio mewn partneriaeth ble'n bosib. |
| Cylchol | £350k / flwyddyn trwy LlC | • Trefnu rhaglen o weithgareddau i hyrwyddo a hwyluso ailgylchu ac ailddefnyddio<br>• Cydweithio gyda mudiadau (gan gynnwys CSYM) i redeg gofodau Ffiws |
| Llwyddo'n Lleol | £210k hyd at Mawrth 2026 | • Cynllun gweithredol dros rhanbarth Arfor (Gorllewin Cymru)<br>• Ymgyrch farchnata i amlygu cyfleoedd byw a gweithio o fewn y rhanbarth, wedi ei dargedu yn benodol at bobl ifanc 13-30. |

| | | |
|---|---|---|
| Afonydd Menai | £150k / flwyddyn trwy'r Loteri | • Diogelu y Lygoden Ddwr trwy warchod bioamrywiaeth afonydd naill ochr i'r Fenai mewn cydweithrediad â phartneriaid allweddol<br>• Gweithio gyda ysgolion a chymunedau i gynyddu ymwybyddiaeth |
| Theatr Ieuenctid Môn | £40k / flwyddyn | • Cynnal gweithgareddau a chyfleoedd theatr i bobl ifanc trwy gyfrwng y Gymraeg |
| Ein Hanes Ni | 100k / flwyddyn trwy'r Loteri | • Cynllun pontio'r cenedlaethau sy'n cofnodi hanes lleol trigolion yr Ynys drwy weithdai a fideos digidol |
| Gwarchodfeydd Natur | Dim incwm – MM yn cyllido | • Safle/castell Aberlleiniog a Cyttir mawr – dau safle sy'n warchodfeydd natur lle mae gwaith ar y cyd gyda'r gymuned yn digwydd i gynnal a chadw'r ardaloedd a'u treftadaeth. |




















**Portffolio Economi** (o dan gyfrifoldeb Bethan Fraser Williams)

| Cynllun | Cyllideb | Manylion |
|---|---|---|
| Busnes Cymru | £1 miliwn / flwyddyn | Cytundeb cenedlaethol mae MM yn ei redeg ar y cyd gyda M-SParc a Business in Focus (Caerdydd). Cefnogaeth yn cynnwys:<br>• Cefnogaeth cychwyn busnes<br>• Cefnogaeth i bobl ifanc<br>• Cefnogaeth i busnesau dyfu<br>• Cefnogaeth i gryfhau cadwyn cyflenwi |
| Hwb Menter | £350k / flwyddyn try SPF | Rhaglen cefnogi busnesau gyda pwyslais ar cymorth wyneb i wyneb.<br>• Cefnogaeth cychwyn busnes<br>• Digwyddiadau rhwydweithio ac hyfforddiant<br>• Cefnogaeth grantiau (cydweithio gyda CSYM) |
| Larder Cymru | £150k / flwyddyn trwy LlC | Rhaglen sy'n gweithio gyda cyrff cyhoeddus a'r sector breifat i sicrhau mwy o gynhwysion Cymreig a fwydlenni ysgolion.<br>• Cefnogaeth i ddatblygu bwydlenni ysgolion |

| | | |
|---|---|---|
| | | • Cefnogaeth i gwmniau datblygu cynhwysion a cynnyrch sy'n cydfynd a safonau ysgolion. |
| Partneriaeth Bwyd Ynys Môn | £100k / flwyddyn trwy CSYM a LlC | • Hyrwyddo bwyta'n iach a a llesiant<br>• Annog cydweithio rhwng partneriaid<br>• Cynyddu argaeledd bwyd lleol<br>• Darparu grantiau i grwpiau cymunedol |
| Trefi SMART Cymru | £130k / flwyddyn trwy LlC | Rhaglen sy'n cefnogi trefi a busnesau i ddefnyddio data er wyn gwneud penderfyniadau. |











**Portffolio Ynni** (o dan gyfrifoldeb Andy Billcliff)

| Cynllun | Cyllideb | Manylion |
|---|---|---|
| Morlais | £1 miliwn / flwyddyn | Cynllun (is-gwmni) sydd yn datblygu parth ynni llif morol oddi ar arfordir Ynys Cybi.<br>• Darparu cefnogaeth i datlygwyr ynni mor sefydlu ar Ynys Môn.<br>• Darparu parth morol a mynediad at grid<br>• Ymgysylltu gyda ysgolion a'r busnesau lleol |
| Prosiect Ymchwil i Nodweddion Morol | £1 miliwn / flwyddyn | Cynllun monitro a mesur impact dyfeisiadau ynni môr ar fywyd gwyllt. |
| Hwb Hydrogen Caergybi | I'w gadarnhau | Cynllun i gynhyrchu hydrogen gwyrdd gan ddefnyddio ynni llanw.<br>• Tir gyda caniatad cynllunio ym Mharc Cybi<br>• Partneriaeth gyda EDF Hynamics<br>• Cyllid wedi glustnodi gan BUGC a Llywodraeth Prydain. |
| Parc Solar Traffwll | I'w gadarnhau | Cynllun solar 30MW gyda caniatad cynllunio ond heb ei ddatblygu ger Bryngwran.<br>• MM mewn trafodaethau i brynu a datblygu y safle gan a y datblygwr presennol<br>• Cyfle i gwerthu cyfranddaliadau lleol.<br>• Cyfle cynyddu buddion lleol |
| Cynlluniau Budd Cymunedol | Dim i MM | • MM yn gweinyddu cronfa buddion cymunedol Porth Wen. Ffi gweinyddol yn dychwelyd i'r gymuned. |









**6. Cydweithio rhwng Cyngor Sir Ynys Môn a Menter Môn**

Mae yna gydweithio parhaus rhwng y ddau gorff, a hynny ar draws y dair portffolio. Gweler isod enghreifftiau o'r cydweithio hwnnw.

| Cynllun | Partner o fewn CSYM | Manylion |
|---|---|---|
| **Cylchol** | Gwasanaethau Gwastraff a Ailgylchu | Rydym yn casglu eitemau addas o Ganolfan Penhesgyn er mwyn eu trwsio a'r gwerthu o ganolfan Hospis Dewi Sant yng Nghaergybi. |
| | Gwasanaeth Llyfrgelloedd Ynys Môn | Rydym wedi sefydlu gofod creu Ffiws yn Llyfrgell Caergybi. Mae ganddo detholiad offer er mwyn trwsio a dyluio. |
| | Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc | Gweithdai ailddefnyddio ar gyfer gwahanol grwpiau yn y gymuned. |
| **Glasffordd Môn** | Adran Priffyrdd | Cydweithio gyda CSYM ac eraill i ddatblygu coridor gwyrdd ar draws yr Ynys. |
| **Hwb Menter** | Adran Datblygu Economaidd | Cefnogi busnesau gyda ceisiadau a dosbarthu grantiau busnes SPF. |
| **Menter Iaith / Balchder Bro** | Adran Polisi a Chynllunio | Cydlynu a llywio'r Fforwm Iaith a gwireddu yn ôl y cynllun gweithredu (sy'n cynnwys mwy o adrannau e.e. gwasanaethau dysgu) |
| | Adran Cynllunio / Adran Priffyrdd | CSYM yn cefnogi gweithgareddau blynyddol e.e. Gŵyl Cefni a Dydd Gŵyl Dewi |
| | Adran Plant a Phobl Ifanc | Datblygu cynnig ac arlwy TIM mewn clybiau Ieuenctid a chanolfannau ar draws yr Ynys |
| | Gwasanaethau Oedolion | Cydweithio ar weithgareddau/cefnogaeth i gymunedau i gynnal statws cymunedau oed gyfeillgar |
| | Adran Cynllunio | Cefnogaeth i wireddu cynlluniau cymuned e.e. byrddau dehongli, arwyddion, byrddau gwybodaeth. |
| **Afonydd Menai** | Adran Cynllunio | Cytundeb er mwyn cael mynediad i diroedd CSYM i osod trapiau, ac aelod o Fforwm Minc |

| | | |
|---|---|---|
| **Larder Cymru** | Adran Addysg | Cydweithio gyda CSYM a LlC i edrych ar opsiynau i gaffael bwyd ysgolion yn uniongyrchol. |
| **Partneriaeth Bwyd Ynys Môn** | Gwasanaethau Tai | Gweinyddu Partneriaeth Bwyd ar ran Cyngor Sir Ynys Môn |
| **Porthladd Rhydd** | Adran Economi | Rydym yn aelod o Fwrdd Porthladd Rhydd Ynys Môn ac yn cydweithio er mwyn uchafu y budd i'r Ynys. |
| **Adfywio Llangefni** | Adran Adfywio | Hwyluso rôl swyddog Adfywio Llangefni drwy ymddwyn fel cerbyd ar gyfer cyflogi'r aelod staff |

**7. Cyfleoedd cydweithio i'r dyfodol**

| Cynllun | Manylion |
|---|---|
| **Eisteddfod yr Urdd** | Cydweithio gyda CSYM a'r Urdd er mwyn sicrhau fod gŵyl 2026 yn lwyddiant a fod Ynys Môn yn elwa yn economaidd, yn ddiwylliannol ac yn ieithyddol. |
| **Hwb Hydrogen Caergybi** | Cydweithio gyda CSYM i adnabod cyfleoedd i ddefnyddio hydrogen gwyrdd mewn cerbydau ar yr Ynys, ac i ddadcarboneiddio rhannau eraill o'r economi. |
| **Bwyd mewn Ysgolion** | Cydweithio gyda CSYM er mwyn cynyddu canran o gynhwysion lleol a Chymreig ar fwydlenni ysgolion. |
| **Porthladd Rhydd** | Sicrhau fod gwasanaethau cymorth busnes (Busnes Cymru) yn ychwanegu gwerth ac yn plethu gyda amcanion y Porthladd Rhydd. Sicrhau fod cynlluniau Morlais a Hwb Hydrogen yn manteisio ar buddion y Porthladd Rhydd, ac yn esiampl o arfer da i gwmniau eraill. |
| **Ailgylchu** | Adnabod rhagor o gyfleoedd i gydweithio gyda'r Adran Gwastraff er mwyn lleuhau gwastraff a cynyddu lefelau ailgylchu. |
| **Meithrin y Gymraeg** | Cyfrannu'n uniongyrchol at strategaeth pum mlynedd y Cyngor ar gyfer hybu'r Gymraeg, fydd yn cael ei diweddaru'r flwyddyn nesaf. Parhau i ddatblygu cynllun gwaith y Fforwm ar y cyd. |
| **Llwyddo'n Lleol** | Parhau i wireddu Llwyddo'n Lleol a cydweithio gyda CSYM er mwyn amlygu cyfleoedd o fewn meysydd pendodol e.e. ynni, porthladd rhydd. |

**8. Partneriaeth rhwng Menter Môn a Chyngor Sir Ynys Môn**

Cyngor Sir Ynys Môn yw partner pwysicaf Menter Môn a rydym wedi cymryd camau pendant i gryfhau y bartneriaeth dros y 12 mis diwethaf. Gweler isod y camau sydd wedi eu cymryd.

- Cyfarfodydd chwarterol rhwng Prif Weithredwr CSYM a Rheolwr Gyfarwyddwr Menter Môn.
- Cyfarfodydd chwarterol strategol gyda Arweinydd a Dirprwy Arweinydd CSYM, Prif Weithredwr CSYM, Cadeirydd MM, Rheolwr Gyfarwyddwr MM a Cyfarwyddwr Cynlluniau Cymunedol MM.
- Cyfarfodydd misol gyda aelodau lleol fesul ward.
- Dosbarthu dogfen i aelodau etholedig gyda trosolwg o gynlluniau MM, strwythur y cwmni a manylion y prif swyddogion.
- Cylchlythyr misol yn cael ei anfon at bob aelod etholedig gyda detholiad o straeon
- Ymgysylltu gyda aelodau etholedig os oes gweithgaredd o fewn eu ward.

**3. Heriau Menter Môn**

- **Ansicrwydd ariannol** - Ers gadael Ewrop mae ansicrwydd ariannol yn fater parhaus. Mae hyn yn arbennig o wir yng nghyd-destun cynlluniau cymunedol. Mae Cronfeydd Ffyniant Gyffredin wedi crebachu a nid oes unrhyw sicrwydd o un flwyddyn i'r nesaf. O ganlyniad rydym wedi cychwyn proses diswyddo dwy flynedd yn olynol, er fod neb wedi colli eu gwaith hyd yma.

  Canlyniad hyn yw fod rhai staff yn gadael oherwydd ansicrwydd, a mae'n gosod pwysau cyson ar yr Uwch Dîm i adnabod a sicrhau cyllideb i'r dyfodol. Mae hyn yn amharu ar y gallu i gynllunio i'r dyfodol.

  Mae mwy o sefydlogrwydd o fewn y ddau faes arall - Ynni ac Economi, ond mae'r gwaith cymunedol yn gwbwl ganolog i bwrpas y cwmni. Un o'r prif resymau aethpwyd ati i ddatblygu Morlais oedd i greu incwm i gynnal y gwaith yn ein cymunedau. Nid cwmni ynni yw Menter Môn, ond cwmni sydd wedi, ac yn awyddus i barhau i geisio gwarchod dyfodol ein cymunedau. Mae angen sicrhau parhad a chynhaliaeth i'r maes yma os am barhau â Menter Môn fel cwmni.

- **Ansicrwydd gwleidyddol** – Mae rhan helaeth o raglen waith Menter Môn yn adlewyrchu polisiau a blaenoriaethau y Llywodraeth bresennol e.e. ynni adnewyddol, economi cylchol, bwyd mewn ysgolion ayb. Mae'n bosib bydd newid yng Nghaerdydd yn mis Mai 2026, a bydd agenda gwleidyddol gwahanol. Rydym hefyd yn rhagweld newid o ran yr Aelodau Seneddol, a felly bydd gofyn meithrin perthynas o'r newydd gyda llawer ohonynt.

- **Risg cynlluniau mawr** – Mae Menter Môn yn gorfod mentro er mwyn gwarchod ei ddyfodol a sicrhau incwm i gynnal ei waith cymunedol. Gall hyn fod yn rhywbeth positif oherwydd mae'n gorfodi'r cwmni fynd i feysydd newydd ac arloesol. Ond

mae risg wastad yn perthyn i gynlluniau fel Morlais a Hwb Hydrogen Caergybi. Er fod gennym prosesau a llywodraethiant cadarn, mae rhai ffactorau allanol tu allan i’n rheolaeth e.e. gwleidyddiaeth rhyngwladol, blaenoriaethau buddsoddi y sector breifat a datblygiad technoleg.

**ATODIAD – Sut mae gwaith Menter Môn yn cydfynd gyda Chynllun y Cyngor 2023 – 2028**

Cyfeiriwyd eisoes at amcanion Menter Môn - cefnogi a meithrin pobl, cryfhau'r economi, gwella'r amgylchedd, bywiogi ein diwylliant. Mae rhain yn cyd-fynd gydag amcanion strategol a nodir o fewn Cynllun y Cyngor Sir. Yn benodol, mae yma alinio clir rhwng y Gymraeg, yr economi a newid hinsawdd. Isod cynigir enghreifftiau;

**Amcan Strategol CSYM – Yr Iaith Gymraeg**
Cynyddu'r cyfleoedd i ddysgu, magu a defnyddio'r iaith Gymraeg

- Cynnal a chydlynu **Fforwm Iaith Ynys Môn** mewn partneriaeth agos â Chyngor Sir Ynys Môn. Mae'r Fforwm wedi dathlu ei ben-blwydd yn 10 oed eleni acrydym wedi ymrwymo i'w gynnal drwy gydweithrediad agos â phartneriaid lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. Mae Fforwm Iaith Ynys Môn hefyd yn cyfrannu at **amcan strategol addysg** y Cyngor Sir.

- Rhedeg **Theatr Ieuenctid Môn** er mwyn cynnig cyfleoedd i blant a phobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol, a thu hwnt i'r ystafell ddosbarth.

- **Trefnu digwyddiadau** e.e. **Gŵyl Cefni**, yn ogystal â chefnogi cymunedau i drefnu gweithgareddau eu hunain, sy'n rhoi llwyfan i'r Gymraeg a diwylliant cynhenid. Mae rhain yn cynnwys gorymdeithiau Gwyl Dewi, clapio wyau, cyngherddau a sioeau ac eleni – gwyliau newydd sbon megis Gŵyl Gogogoch.

- Cefnogi defnydd o'r **Gymraeg mewn busnes** trwy gynlluniau cymorth busnes **Hwb Menter** a **Busnes Cymru.** Mae hyn yn cynnwys cydweithio gyda CSYM i wireddu cynlluniau grantiau, yn ddiweddar drwy Cymunedau Mentrus i sicrhau statws i'r Gymraeg.

- Cydweithio gyda CSYM i wireddu **cynlluniau ARFOR** yn gyffredinol sy'n ceisio datblygu'r economi i gefnogi'r Gymraeg.

- **Hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg** trwy holl weithgareddau Menter Môn, gan gynnwys cynlluniau ynni adnewyddol, amgylcheddol ac economaidd.

- Sicrhau **statws i'r Gymraeg** o fewn Menter Môn trwy sicrhau ei bod yn iaith weinyddol i'r Cwmni, a chynnig cyfleoedd datblygu, codi hyder a chymorth ymarferol i staff. Eleni mae bron i 10 aelod staff yn derbyn hyfforddiant i wella / dysgu Cymraeg.

**Amcan Strategol CSYM – Economi**
Sicrhau cyfleoedd i ddatblygu economi'r ynys.

- Cynnig cefnogaeth busnes trwy gynlluniau **Hwb Menter** a **Busnes Cymru** ar Ynys Môn. Cydweithio gyda Chyngor Sir Ynys Môn er mwyn sicrhau fod rhain yn plethu ac ychwanegu gwerth i weithgareddau partneriaid.

- Cryfhau **cadwyni cyflenwi bwyd lleol**, trwy weithio gyda cyrff cyhoeddus, y sector arlwyo, a chyflenwyr a cynhyrchwyr bwyd.

- Cefnogi trefi a busnesau stryd fawr i **fanteisio ar dechnoleg SMART**, er mwyn casglu data a'i ddefnyddio er mwyn gwneud penderfyniadau.

- Adnabod a datblygu cynlluniau o fewn y **maes ynni adnewyddol** er mwyn sicrhau cyflogaeth lleol o safon uchel. Hefyd cyfrannu at flaenoriaethau Ynys Ynni, a sicrhau fod Ynys Môn yn datblygu i fod yn ganolfan rhagoriaeth bydol ar gyfer y diwydiant ynni llanw.

- Adnabod, datblygu a chynnig **cyfleoedd cadwyn cyflenwi** sy'n deillio o gynlluniau ynni Menter Môn. Hefyd cydweithio gyda chynlluniau datblygwyr eraill er mwyn sicrhau fod economi Ynys Môn yn elwa o'r buddsoddiad.

- Cydweithio gyda Chyngor Sir Ynys Môn a phartneriaid allweddol eraill i ddatblygu cynllun **Porthladd Rhydd Caergybi**.

- **Datblygu gwasanaethau masnachol ac ymgynghorol** Menter Môn a hynny thrwy Gymru er mwyn cryfhau'r cwmni a chynnig cyflogaeth sefydlog o safon uchel ar Ynys Môn.

**Amcan Strategol CSYM – Newid Hinsawdd**
Ymateb i'r argyfwng, mynd i'r afael â newid hinsawdd a gweithio tuag at fod yn sefydliad sero net erbyn 2030.

- Datblygu **cynlluniau ynni adewyddol** er mwyn cynhyrchu ynni adnewyddol, creu swyddi o safon uchel, a chynnig cyfleoedd i gwmnïau Ynys Môn. Byddwn yn blaenoriaethu **Morlais** a **Hwb Hydrogen Caergybi**, ond rydym yn agored i gydweithio gyda, a dylanwadu ar, ddatblygwyr eraill er mwyn sicrhau buddion i'r ynys a'r cymunedau.

- Sefydlu **Ynni Cymunedol Môn** fel cerbyd unswydd gyda llywodraethiant annibynnol i weithio gyda, ac ar ran ein cymunedau, i sicrhau budd cymunedol o ddatblygiadau ynni.

- Cydweithio gyda Chyngor Sir Ynys Môn ar gynlluniau i **ddad-garboneiddio eu gwasanaethau** trwy gynhyrchu a defnyddio hydrogen gwyrdd mewn trafnidiaeth.

- Cydweithio gyda Chyngor Sir Ynys Môn i godi **ymwybyddiaeth trigolion Ynys Môn** o ddatblygiadau ynni ar yr ynys, defnydd eu hunain o ynni a sut gall gymunedau elwa. Mae hyn hefyd yn cynnwys **ymgysylltu gyda phlant a phobl ifanc** trwy ysgolion, fel sydd yn digwydd trwy cynllun Morlais ar hyn o bryd.

- Cydweithio gyda Chyngor Sir Ynys Môn a phartneriaid eraill i ddatblygu **llwybrau aml ddefnydd gwyrdd Glasffordd.** Bydd rhain yn cynnig cyfleoedd teithio llesol, llwybrau beicio a choridorau bioamrywiaeth.

- Parhau i **warchod cynefinoedd a rhywogaethau** cynhenid ar Ynys Môn, a sicrhau cefnogaeth ymarferol a chyllidol rhanddeiliaid. Hyn i gynnwys cynnal gwarchodfeydd natur a diogelu dyfodol y lygoden ddŵr.

- Darparu cyfleoedd i gymunedau gyfrannu a pherchnogi adnoddau gwyrdd Ynys Môn, a **darparu buddion llesiant i drigolion**. Mae gwarchodfa natur Aberlleiniog yn enghraifft o hyn.

- Cydweithio gyda Chyngor Sir Ynys Môn er mwyn gwireddu cynllun **Cylchol**, sef **cynllun economi cylchol** sy’n gweithio mewn cymunedau er mwyn cynyddu ail ddefnyddio a thrwsio ar Ynys Môn.

MENTER MÔN
Ers 1995
30

# Trosolwg - Overview

- Cyflogi 80 aelod o staff
- 90% yn siaradwyr Cymraeg
- Oed cyfartalog 35 mlwydd oed
- Trosiant 2024 - £11 miliwn
- Swyddfeydd
  - Llangefni (Neuadd y Dref)
  - Caergybi (Is Orsaf Morlais)
  - Gaerwen (M-SParc)
  - Porthmadog

- Employ 80 members of staff
- 90% are Welsh speakers
- Average age 35 years old
- Turnover in 2024 - £11 million
- Offices
  - Llangefni (The Town Hall)
  - Holyhead (Morlais Sub Station)
  - Gaerwen (M-SParc)
  - Porthmadog

# Datgloi potensial ein pobl a'n hadnoddau er mwyn sicrhau dyfodol ein cymunedau.

# Unlock the potential of our people and resources to secure the future of our communities.

- Cefnogi a meithrin pobl
- Cryfhau'r economi
- Gwella'r amgylchedd
- Bywiogi ein diwylliant

- Support and nurture people
- Strengthen the economy
- Enhance the environment
- Celebrate our culture
















# Portffolio1 – Gymuned
# Portffolio 1– Community
















# Portffolio 2 – Economi
# Portffolio 2– Economy
















# Portffolio 3 – Egni
# Portffolio 3– Energy












# Gweithio mewn partneriaeth
# Working in partnership




PORTHLADD RHYDD YNYS MÔN

ANGLESEY FREEPORT

Ffyniant ledled Ynys Môn a Gogledd Cymru

Prosperity for Anglesey and North Wales




# Cyfleoedd cydweithio i'r dyfodol
# Future partnership opportunites

# Cryfhau y berthynas
# Strengthen the relationship

- Cyfarfodydd strategol rheolaidd
- Cyfarfodydd RhG MM a PW CSYM rheolaidd
- Presenoldeb ar Bwrdd MM
- Cyfarfodydd wardiau etholiadol
- Dosbarthu gwybodaeth
- Cylchlythyr misol
- Ymgysylltu lleol

- Regular strategic meetings
- Regular MM MD and ACC CEO
- Presence on MM Board
- Electoral ward meetings
- Information distribution
- Monthly newsletter
- Local engagement

# Heriau - Challenges

- Ansicrwydd ariannol cyson
  - Cadw staff
  - Pwysau ar yr Uwch Dîm
- Newid gwleidyddol
  - Agenda newydd
  - Perthynas gyda ASau newydd
- Risg cynlluniau mawr
  - Gwleidyddiaeth rhyngwladol
  - Buddsoddiad preifat
  - Technoleg newydd

- Ongoing funding uncertainty
  - Staff retention
  - Pressure on Senior Team
- Political change
  - New agenda
  - Relationship with MSs
- Big project risks
  - Global politics
  - Private investment
  - New technology



# DIOLCH AM WRANDO

This page is intentionally left blank

22/11/2024

# Cyngor Sir Ynys Môn
# Adroddiad Sgriwtini

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio |
| **Dyddiad:** | 14 Hydref 2025 |
| **Pwnc:** | Partneriaeth Diogelwch Cymunedol – Adroddiad Blynyddol |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | Cynghorydd Dylan Rees |

## 1. Pwy fydd yr aelod portffolio yn cyflwyno / arwain yr adroddiad?

| Aelod Portffolio | Rôl |
|---|---|
| Cynghorydd Alun Roberts | Aelod portffolio ar gyfer Diogelwch Cymunedol |
| **Swyddog Gwasanaeth (yn cefnogi)** | **Rôl** |
| Daron Owens | Uwch Swyddog Gweithredol |
| Rhys Hughes | Dirprwy Prif Weithredwr |

## 2. Pam y gofynnir i'r Pwyllgor Sgriwtini ystyried y mater

Mae gofyn i'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol adrodd yn ffurfiol i'r pwyllgor hwn bob blwyddyn er mwyn cyflwyno trosolwg o weithgareddau.

## 3. Rôl y Pwyllgor Sgriwtini ac argymhellion

☒Er sicrwydd
☐Er argymhelliad i'r Pwyllgor Gwaith
☐Er gwybodaeth

Argymhelliad(ion):
Nodi cynnwys yr adroddiad a'r dogfennau atodol, a nodi a yw'r Pwyllgor Craffu yn cefnogi'r blaenoriaethau a chyfeiriad y gwaith i'r dyfodol.

## 4. Sut mae'r argymhelliad(ion) yn cyfrannu at amcanion Cynllun y Cyngor?

Sicrhau cymunedau iachach, mwy diogel a thecach trwy gynnig amrywiaeth o wasanaethau ataliol, gwella a chefnogol, mewn partneriaeth â rhanddeiliaid eraill o'r un anian.

## 5. Themâu sgriwtini allweddol

Y meysydd allweddol ddylai'r Pwyllgor Sgriwtini ganolbwyntio arnynt:

1. Mesur blaenoriaethau'r Bartneriaeth (sy'n seiliedig ar broses asesu anghenion lleol), a nodi unrhyw anghenion lleol newydd neu ychwanegol
2. Asesu effeithiolrwydd y bartneriaeth statudol yn unol â disgwyliadau'r Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998
3. Gwerthuso effaith y cynllun gweithredu yn erbyn y meysydd blaenoriaeth er budd cymunedau Ynys Môn



Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg
This document is available in English

## 6. Pwyntiau allweddol / crynodeb

**CEFNDIR:**

1. Mae'r adroddiad yn nodi gweithgareddau'r Bartneriaeth dros yr 11 mis diwethaf ers i ni gyflwyno i'r Panel Sgriwtini ddiwethaf ym mis Tachwedd 2024.

2. Mae dyletswydd statudol ar Awdurdodau Lleol yn unol â Deddf Trosedd ac Anrhefn 1998 i weithio mewn partneriaeth gyda'r Heddlu, y Gwasanaeth Iechyd, y Gwasanaeth Prawf a'r Gwasanaeth Tân ac Achub. Dyma'r prif asiantaethau sy'n ffurfio'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol. Mae yna hefyd bartneriaid ychwanegol megis y Bwrdd Cynllunio Ardal (camddefnyddio sylweddau), Addysg, Cyfiawnder Ieuenctid a Cydlyniant Cymunedol.

3. Fel aelod statudol o'r Bartneriaeth, mae'n bwysig bod CSYM yn cael ei gynrychioli'n briodol. Cyflawnir hyn drwy bresenoldeb yr aelod lleol presennol gyda phortffolio Diogelwch Cymunedol, sef Alun Roberts, a'r swyddogion gyda chyfrifoldeb am y gwaith, sef Rhys Hughes (Dirprwy Prif Weithredwr) a Ned Michael (Pennaeth Tai).

4. **Yn wreiddiol, galwyd partneriaethau diogelwch cymunedol yn bartneriaethau trosedd ac anhrefn, ac er bod yr enw wedi'i newid, nid yw'r cyfrifoldebau ac maent yn parhau i fod -** trosedd ac anhrefn, camddefnyddio sylweddau, lleihau aildroseddu.
   - Dan y Ddeddf Trais Domestig, Troseddau a Dioddefwyr 2004, mae gan Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol ddyletswydd statudol hefyd i sefydlu Adolygiadau Dynladdiad Domestig (DHRs). Mae'r rhain yn adolygiad o'r amgylchiadau pan fo marwolaeth person 16 oed neu hŷn wedi, neu'n ymddangos ei bod wedi deillio o drais, cam-drin neu esgeulustod gan— (a) person yr oedd yn perthyn iddo neu wedi bod mewn perthynas bersonol agos, neu (b) yn aelod o'r un aelwyd ag ef ei hun, gyda golwg ar nodi'r gwersi i'w dysgu o'r farwolaeth.
   - Yn dilyn diwygiadau i'r Ddeddf Trosedd ac Anhrefn o ganlyniad i'r Ddyletswydd Trais Difrifol newydd, mae gennym hefyd gyfrifoldeb i atal a lleihau trais difrifol.

5. Mae presenoldeb da bob amser yn y cyfarfodydd chwarterol. Mae'r Partneriaid a'r Aelodau Lleol sy'n mynychu'r cyfarfodydd yn cyfrannu'n gadarnhaol. Rhennir data chwarterol ar ffigurau trosedd a diweddariadau chyflawniad y cynllun ym mhob cyfarfod. Mae pob aelod cyfrifol o'r bartneriaeth yn cyfrannu'n ariannol at sefydlu dadansoddwr partneriaeth, fel y gellir darparu data rheolaidd i gefnogi penderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

6. Mae gweithio rhwng partneriaid yn sylfaenol i ddiogelwch cymunedol. Y prif reswm dros gyflwyno PDC yn ôl ym 1998, oedd sicrhau bod trosedd ac anhrefn yn cael ei ystyried yn '**broblem i bawb'** ac nid i'r Heddlu yn unig.

7. Nid ydym yn comisiynu unrhyw brosiectau neu wasanaethau yn uniongyrchol (dim ond y DHRs) **gan nad oes unrhyw arian yn cael ei ddyrannu yn barhaol i Ddiogelwch**

**Cymunedol. Mae cyllid ar gyfer prosiectau penodol yn ddibynnol ar gyfleoedd grant a dim ond ar gael trwy wneud cais amdanynt.**

**BLAENORIAETHAU/DOGFENNAU'R BARTNERIAETH AR GYFER CRAFFU:**

Mae'r bartneriaeth yn gweithio yn unol â chynllun blynyddol. Ynghlwm mae cynllun 2025-26, sy'n seiliedig ar flaenoriaethau **rhanbarthol** y Strategaeth Bwrdd Gogledd Cymru Mwy Diogel:

- Atal Troseddau ac Ymddygiad Gwrthgymdeithasol
- Mynd i'r Afael â Trais Difrifol
- Mynd i'r Afael â Throseddau Cyfundrefnol Difrifol
- Diogelu ac adeiladu cymunedau gwydn a chynnal diogelwch y cyhoedd

**GWAITH WEDI'I GWBLHAU YN YSTOD 2025**

1. Datblygwyd y cynllun blynyddol yn unol a blaenoriaethau y Bwrdd Rhanbarthol Gogledd Cymru Fwy Diogel. Mae cynllun 2025-26 (ynghlwm) yn nodi'r gweithgaredd yr oedd y Bartneriaeth am ei gyflawni yn ystod y flwyddyn ariannol hon.

2. Rhannwyd ffigyrau trosedd yn chwarterol drwy adroddiad perfformiad a baratowyd gan ddadansoddwr yr Heddlu, fel y gellir trafod unrhyw dueddiadau a gweithgaredd ychwanegol sydd ei angen.

3. Fel nodir uchod, mae gennym ddyletswydd statudol o dan y Ddeddf Trais Domestig, Trosedd a Dioddefwyr 2004 i sefydlu Adolygiadau Dynladdiad Domestig (DHR). Yn anffodus, roedd 3 DHR ar y gweill eleni a derbyniwyd 2 gyfeiriad am adolygiadau newydd. Mae'n anochel bod gan y gwaith hwn oblygiadau sylweddol a pharhaus o ran adnoddau.. Ers Hydref 2024, yng Nghymru mae DHRs yn cael eu cynnwys o fewn y broses newydd Adolygiad Diogelu Unedig Sengl (ADUS). O hyn ymlaen, byddwn yn cydweithio gyda'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol gyda'm dyletswyddau DHR.

4. Crynodeb o'r gwaith a gwblhawyd eleni:
   a) Gweithredu'r cynllun Diogelwch Cymunedol blynyddol yn barhaus ac adrodd yn chwarterol i'r Bwrdd rhanbarthol Gogledd Cymru Fwy Diogel.
   b) Cyhoeddwyd y Strategaeth Trais Difrifol Gogledd Cymru ym mis Ionawr 2024, mewn ymateb i'r Ddyletswydd Trais Difrifol cenedlaethol. Mae'r Ddyletswydd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau penodedig gydweithio i atal a lleihau trais difrifol yn yr ardal. Yn dilyn diwygiadau diweddar i'r Ddeddf Trosedd ac Anhrefn, mae gan y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol rôl benodol mewn gweithredu strategol ar sail tystiolaeth ar drais difrifol, ac rydym wedi bod yn rhan o'r gwaith strategaeth ranbarthol drwyddo draw.
   c) Fel rhan o'r Strategaeth Trais Difrifol rhanbarthol, derbyniwyd y Bartneriaeth £65k ar gyfer prosiectau ataliol yn ein rhanbarth. Eleni, mae saith prosiect gwahanol yn cael eu cynnal. Yn Ynys Môn mae hyn yn cynnwys:

- Sesiynau ‘Peidiwch â Dwyn Fy Nyfodol’ a gynhelir mewn ysgolion gan RASASC Cymru (Rape and Sexual Abuse Support Centre). Mae hon yn ymgyrch addysgol, sy’n codi ymwybyddiaeth o gyffredinolrwydd eang trais rhywiol mewn cymdeithas, ac yn bwysicaf oll, sut y gallwn ddechrau newid agweddau ac ymddygiad.
- Datblygu ymgyrch ymwybyddiaeth ynghylch gwerthu ‘vapes’ anghyfreithlon a chamfanteisio ar blant, er mwyn cynyddu adrodd a rhannu gwybodaeth.
- Cynnal gwerthusiad o Wasanaeth ymyrraeth gynnar ac ecsbloetio yr awdurdod lleol i ddeall os yw'r trefniadau presennol yn ddigonol.
- Prosiectau Gwasanaeth Ieuenctid – lleihau troseddau cyllyll drwy ddysgu ac addysg anffurfiol (rhaglen VR) a chynyddu cefnogaeth a dargedwyd yn ardal Amlwch drwy Ganolfan/Caffi Ieuenctid.

d) Cwblhawyd yn llwyddiannus y prosiect i uwchraddio a gwella teledu cylch cyfyng ar draws yr ynys a ariannwyd drwy'r Gronfa Ffyniant Gyffredin. Dyrannwyd £250k i ymgymryd ag uwchraddiad hanfodol ‘servers’ ar draws yr ynys a chynyddu'r ddarpariaeth camerâu bresennol yng Nghaergybi a Llangefni.

e) Rydym wedi parhau i fod yn aelodau gweithredol o Fwrdd Diogelu Corfforaethol y Cyngor, ac wedi gweithio'n agos gyda'r Rheolwr Gwasanaeth ar gyfer Diogelu a Sicrhau Ansawdd ar faterion diogelu fel Atal, Trais Domestig a Throseddau Cyfundrefnol Difrifol.

f) Gyda'r Heddlu, rydym wedi datblygu pecyn ymwybyddiaeth ar gyfer staff awdurdodau lleol a phartneriaid perthnasol eraill ynghylch a Troseddau Cyfundrefnol Difrifol (SOC). Cafodd y pecyn ei dreialu ym mis Awst gydag Uwch Reolwyr a bydd yn cael ei gyflwyno flwyddyn nesaf. Ein nod yw cynyddu dealltwriaeth gweithwyr proffesiynol o sut mae SOC yn amlygu ei hun yn ein cymunedau a'r perthnasedd i'w gwaith o ddydd i ddydd.

g) Rydym wedi parhau i weithio'n agos gyda'r Arweinydd Rhanbarthol ar gyfer Hunanladdiad a Hunan-niwed o fewn y Gwasanaeth Iechyd. Mae gwaith sylweddol yn cael ei wneud yn rhanbarthol, er enghraifft cyflawni ar strategaeth newydd Llywodraeth Cymru, ymateb i leoliadau sy'n peri pryder a chodi ymwybyddiaeth o'r gefnogaeth sydd ar gael. Yn dilyn cais llwyddiannus i'r rhaglen grantiau bach, fe wnaethom drefnu gweithdy amlasiantaethol ar gyfer gweithwyr proffesiynol ledled Ynys Môn a Gwynedd gydag arbenigwr enwog yn y maes ynghylch y cysylltiad rhwng cam-drin domestig a hunanladdiad. Roedd y digwyddiad wedi'i or-danysgrifio a chafodd dderbyniad da iawn, ac rydym yn awyddus i drefnu digwyddiadau tebyg pellach yn y dyfodol.

h) Rydym yn parhau i fod yn aelodau o'r grŵp rhanbarthol i weithredu Strategaeth Lleihau Niwed Alcohol ar gyfer Gogledd Cymru. Wedi'i hariannu gan y Bwrdd Cynllunio Ardal, y nod yw lleihau effeithiau niweidiol yfed alcohol ledled Gogledd Cymru, trwy annog perthynas fwy diogel ac iachach ag alcohol. Mae'r Strategaeth wedi'i hadnewyddu'n ddiweddar ar gyfer 2025, ac mae dull cydweithredol, sy'n seiliedig ar bartneriaeth, yn cael ei fabwysiadu i leihau'r beichiau cymdeithasol ac economaidd sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio alcohol.

i) Gwnaed cais llwyddiannus i Grant Cyfalaf VAWDASV Llywodraeth Cymru i brynu offer ‘target hardening’ ar gyfer goroeswyr cam-drin domestig. O ganlyniad, mae 50 o gamerâu diogelwch wedi'u darparu eleni i'w dosbarthu yn Ynys Môn drwy'r cyfarfod 'Un Drws Blaen'. Eleni mae'r Bartneriaeth hefyd yn ymwneud â gwaith rhanbarthol i

| |
|---|
| safoni caledu targedau yng Ngogledd Cymru, ar ffurf siarter neu gytundeb safonau gofynnol. |

**7. Asesiadau effaith**

7.1 Effeithiau posibl ar grwpiau gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010

| |
|---|
| Nid yw'r adroddiad blynyddol yn cynnwys cyfeiriad at unrhyw ddatblygiadau, y tybir iddynt gael effaith anffafriol ar unrhyw un o'r grwpiau a warchodir |

7.2 Effeithiau posibl ar bobl sy'n dioddef anfantais economaidd-gymdeithasol (penderfyniadau strategol)

| |
|---|
| Nid yw'r adroddiad blynyddol yn cynnwys cyfeiriad at unrhyw ddatblygiadau, y tybir iddynt gael effaith anffafriol ar unrhyw un sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau |

7.3 Effeithiau posibl ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

| |
|---|
| Nid yw'r adroddiad blynyddol yn cynnwys cyfeiriad at unrhyw ddatblygiadau, y tybir iddynt gael effaith anffafriol ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg |

7.4 Effaith posibl ar darged Carbon Sero Net y Cyngor -

| |
|---|
| Dim / ddim yn berthnasol |

**8. Goblygiadau ariannol**

| |
|---|
| Nid yw'r adroddiad yn nodi unrhyw oblygiadau ariannol penodol i'r Awdurdod Lleol |

**9. Atodiadau**

| |
|---|
| 1. Cynllun Diogelwch Cymunedol 2025-26 |

**10. Awdur yr adroddiad a phapurau cefndir**

| |
|---|
| Daron Owens – Uwch Swyddog Gweithredol |

This page is intentionally left blank

Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd & Môn

Gwynedd & Anglesey Community Safety Partnership

---

**<u>Cynllun Blynyddol Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd a Môn 2025-26</u>**



<u>Cefndir</u>

Mae'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yn grŵp o sefydliadau sy'n gweithio gyda'i gilydd i edrych ar sut orau i fynd i'r afael â throsedd ac anhrefn. Mae'r gofyn i gael partneriaeth o'r fath mewn lle ar lefel leol yn rhan o'r gyfraith, sef Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998. Mae gan nifer o sefydliadau ran i'w chwarae o fewn y bartneriaeth, gan gynnwys yr awdurdod lleol, yr heddlu, y gwasanaeth prawf, y gwasanaeth tân ac achub a'r bwrdd iechyd.

Mae gennym gyfrifoldebau dan Ddeddf 1998 am nifer o feysydd, gan gynnwys – lleihau trosedd ac anhrefn, lleihau aildroseddu, camddefnyddio sylweddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Yn ogystal, mae dyletswydd arnom i gomisiynu adolygiadau Lladdiad Domestig mewn rhai amgylchiadau penodol.

Bydd ein cynllun yn cyflawni yn erbyn blaenoriaethau Strategaeth Bwrdd Partneriaeth Gogledd Cymru Fwy Diogel, sef:

1. Atal trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol
2. Mynd i'r afael â throseddau treisgar
3. Mynd i'r afael â throseddau trefniadol difrifol
4. Diogelu ac adeiladu cymunedau gwydn a chynnal diogelwch y cyhoedd

## Rhaglen waith 2025-26

| # | Gweithred | Allbwn | Canlyniad | Cyfrifoldeb | Amserlen | Blaenoriaeth Strategol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **1** | Cwrdd â'n cyfrifoldebau o dan y Ddyletswydd Trais Difrifol (DTD) newydd – **mae trais difrifol bellach yn flaenoriaeth statudol benodol i PDC.** Mae strategaeth ranbarthol wedi'i datblygu ar gyfer Gogledd Cymru.<br><br>Fel y llynedd, byddwn yn cydlynu gwariant lleol o Arian DTD y Swyddfa Gartref ar sawl ymyriad ataliol yn Ynys Môn a Gwynedd:<br>• Prosiect Ysgolion Gwynedd i rymuso eu hymateb i leihau ac atal trais difrifol a lleihau gwaharddiadau ysgolion.<br>• Cynyddu Darpariaeth Ieuenctid yng Ngwynedd dros yr Haf i leihau ymddygiad gwrthgymdeithasol (YG).<br>• Prosiect RASASC *Peidiwch a Dwyn Fy Nyfodol* i godi ymwybyddiaeth am drais rhywiol a pherthnasoedd iach.<br>• Gwaith drwy Wasanaeth Ieuenctid Ynys Môn i leihau troseddau cyllyll drwy ddysgu ac addysg anffurfiol a sefydlu caffi ieuenctid yn Amlwch fel cymorth wedi'i dargedu.<br>• Gwerthuso Gwasanaethau Ymyrraeth Gynnar Ynys Môn i archwilio profiadau carfan benodol o bobl ifanc i ganfod a yw'r trefniadau presennol yn ddigonol.<br>• Ymgyrch ymwybyddiaeth gyhoeddus benodol gyda *Crimestoppers* yn dilyn pryderon difrifol am y cysylltiad rhwng siopau Vape a chamfanteisio ar blant. | Yn seiliedig ar 4 blaenoriaeth, parhau i ymateb i'r Strategaeth Ranbarthol a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2024<br><br>Achos busnes wedi'i gyflwyno i'r OPCC - Mehefin 2025<br><br>Achos busnes wedi'i gymeradwyo gan yr OPCC - Gorffennaf 2025<br><br>Prosiectau i'w cwblhau a'u gwerthuso erbyn mis Mawrth 2026 | Mae cyfrifoldebau statudol o dan y Dyletswydd yn cael eu bodloni'n lleol<br><br>Mae camau gweithredu sy'n deillio o'r strategaeth yn cael eu cyflawni a'u hadolygu<br><br>DTD wedi'i weithredu i atal a lleihau trais difrifol ledled y rhanbarth<br><br>Ymyriadau lleol yn canolbwyntio ar atal a gyflwynwyd yn lleol trwy gyllid DTD i fynd i'r afael ag achosion sylfaenol trais difrifol | PDC / grŵp tasg a gorffen i gydlynu gwariant lleol / Bwrdd Llywio Rhanbarthol DTD | Drwy gydol 2025/26 | **Blaenoriaeth 2.4 Strategaeth Gogledd Cymru Mwy Diogel** |
| **2** | Byddwn yn sicrhau y bydd cyfrifoldebau a roddir ar y PDC mewn perthynas â chynnal Adolygiadau Dynladdiad Domestig (*DHR*) yn cael eu cwblhau'n briodol. Ers y lansiad ar 1af o Hydref 2024, bydd unrhyw adolygiadau newydd a gomisiynir o dan y broses Adolygiad Diogelu Unedig Sengl (*ADUS*). | Paneli adolygu, Cadeiryddion ac Awduron yn cael eu comisiynu ar gyfer yr adolygiadau, ymgysylltu ag asiantaethau lleol yn ôl yr angen | Mae'r cyfrifoldebau a roddir ar y PDC mewn perthynas â chynnal adolygiadau *DHRs* wedi'u cwblhau'n briodol | PDC / Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Gogledd Cymru | Drwy gydol 2025/26 | **Blaenoriaeth 2.3 Strategaeth Gogledd Cymru Mwy Diogel** |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Mae hyn yn golygu sicrhau bod paneli adolygu, cadeiryddion ac awduron priodol yn cael eu comisiynu, a bod adroddiadau adolygu terfynol yn cael eu cyflwyno a'u derbyn gan y Swyddfa Gartref (Llywodraeth Cymru ar gyfer ADUS) cyn eu cyhoeddi. | Ymgymryd â'r DHR, monitro cynnydd a dysgu, a chyflwyno i'r Swyddfa Gartref/Llywodraeth Cymru | Cynlluniau gweithredu ar waith i ymateb i argymhellion - gwersi a ddysgwyd i wella gwasanaethau yn y dyfodol a diogelu dioddefwyr | | | |
| **3** | **<u>Trais yn erbyn Menywod a Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV)</u>**<br><br>Cynyddu ymwybyddiaeth o adrodd cam-drin domestig a mynediad at wasanaethau a diogelwch i ddioddefwyr<br><br>Cynyddu ymwybyddiaeth o Ymyrraeth Gan Wylwyr, perthnasoedd iach ac atal<br><br>Dyrannu adnoddau diogelwch a ariennir drwy'r Grant Cyfalaf VAWDASV Llywodraeth Cymru<br><br>Datblygu a threialu deunyddiau i gynnal Digwyddiadau Dysgu Adolygiadau Marwolaethau Domestig (*DHR*) ar gyfer ein staff yn seiliedig ar yr argymhellion o adolygiadau blaenorol | Hyrwyddo Llinell Gymorth Byw Heb Ofn, Clare's Law, a Gorwel yn barhaus<br><br>Codi ymwybyddiaeth barhaus o themâu sy'n deillio o ddysgu DHR, gan gynnwys – pobl hŷn fel dioddefwyr, cam-drin wedi'i hwyluso gan dechnoleg, cam-drin teuluol, gwledigrwydd a hunanladdiad sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig<br><br>Nodi ymgyrch flynyddol y Rhuban Gwyn ym mis Tachwedd<br><br>Trefnu sesiynau hyfforddi i staff fel Ymyrraeth Bystander, *Men at Work*, Digwyddiadau Dysgu DHR a hyrwyddo hyfforddiant Cymorth i Ferched Cymru | Mae proffil cam-drin domestig, y sefyllfa yn lleol, a'r cymorth sydd ar gael yn cael ei godi<br><br>Gwell dealltwriaeth o ymyrraeth gynnar<br><br>Dioddefwyr risg uchel wedi'u darparu gyda chaledu targed | PDC a phartneriaid perthnasol | Drwy gydol 2025/26 | **Blaenoriaeth 2.3 Strategaeth Gogledd Cymru Mwy Diogel** |
| **4** | Monitro cynnydd hyfforddiant Gofyn a Gweithredu - Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 | Deall darlun cyfredol o'r cynnydd<br><br>Cydweithio â'r Swyddog Datblygu Hyfforddiant Rhanbarthol ac adrannau hyfforddi perthnasol i fonitro a gwella cynnydd | Gwell ymwybyddiaeth mewn Awdurdodau Lleol o drais domestig i alluogi cyfeirio effeithiol at wasanaethau cymorth<br><br>Mae gofynion statudol ar gyfer Gofyn a Gweithredu yn cael eu bodloni | Adrannau hyfforddi yn y ddwy sir<br><br>Swyddog hyfforddi rhanbarthol | Drwy gydol 2025/26 | **Blaenoriaeth 2.3 Strategaeth Gogledd Cymru Mwy Diogel** |
| **5** | Datblygu Siarter Diogelwch Menywod yn y Nos ar gyfer economi nos Gogledd Cymru, i annog busnesau i ymrwymo a galluogi newid systemig ar gyfer blaenoriaethu diogelwch menywod | Datblygu deunyddiau siarter a hyrwyddo | Gwahodd busnesau Gogledd Cymru i gymryd safiad dim goddefgarwch ar aflonyddu ar fenywod | PDC mewn cydweithrediad â Chyngor | Drwy gydol 2025/26 | **Blaenoriaeth 1.3 a 2.2 Strategaeth Gogledd** |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Ymgysylltu â busnesau lleol a digwyddiad lansio | Newid cadarnhaol i brofiadau menywod yn y nos ledled Gogledd Cymru | Bwrdeistref Sirol Wrecsam | | **Cymru Mwy Diogel** |
| **6** | Cyflawni ar y Dyletswydd Atal statudol – mae hyn yn cael ei oruchwylio gan y PDC<br><br>Diweddaru ein trefniadau yn ôl yr angen ar y cyd â Chynghorydd Rhanbarthol y Swyddfa Gartref<br><br>Datblygu a gweithredu pecyn hyfforddi wyneb yn wyneb pwrpasol ar gyfer staff<br><br>Gweithredu yn dilyn y cais llwyddiannus i'r Gronfa *Atal Radicaleiddio* yn Ynys Môn – cynnal sesiynau hyfforddiant i'r rhai yn y 3ydd sector sydd yn cefnogi pobl ifanc a phobl bregus | Diweddaru Cynllun Atal rhanbarthol i adlewyrchu'r risg gyfredol<br><br>Ymateb i'r Broses Sicrwydd flynyddol gyda'r Swyddfa Gartref – cwblhau hunanasesiad ac ymateb i argymhellion<br><br>Datblygu a gweithredu cynllun hyfforddi a pholisi llogi lleoliad<br><br>Parhau fel aelodau rhagweithiol o'r Grŵp Cyflawni Atal Rhanbarthol | Cyfrannu at Gynllun Gweithredu Bwrdd CONTEST rhanbarthol<br><br>Cyfrannu at ganlyniadau'r Swyddfa Gartref Atal i leihau radicaleiddio<br><br>Gwella ymwybyddiaeth drwy'r ddau awdurdod lleol o egwyddorion y Dyletswydd Atal a sut i wneud atgyfeiriadau<br><br>Ymyrraeth gynnar i unigolion sy'n agored i radicaleiddio | PDC / Adrannau perthnasol Awdurdodau Lleol/Grŵp Cyflawni Atal Rhanbarthol | Drwy gydol 2025/26 | **Cynllun Atal y Swyddfa Gartref**<br><br>**Bwrdd Cystadleuaet h Rhanbarthol**<br><br>**Blaenoriaeth 4.3 Strategaeth Gogledd Cymru Mwy Diogel** |
| **7** | **<u>Targedu ardaloedd ymddygiad gwrthgymdeithasol (YG) problematig:</u>**<br>drwy ein pwerau o fewn Deddf YGG, Troseddu a Phlismona 2014 – drwy orfodi'r Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus (GDMC) presennol ac ymgymryd ag Adolygiadau Achosion YGG<br><br>Dulliau datrys problemau aml-asiantaeth o unrhyw faterion wrth iddynt godi<br><br>Ymgynghoriad ar ymestyn GDMC Bangor sydd yn dod i ben ym mis Tachwedd 2025<br><br>Cael mynediad at gyllid penodol h.y. ar gyfer teledu cylch cyfyng ychwanegol/gwella goleuo | Monitro gorfodi i ddeall effaith GDMC<br><br>Ardaloedd problemus wedi'u nodi drwy ddata'r Heddlu ac unrhyw bryderon a ddygwyd i'n sylw<br><br>Ymgynghori â'r cyhoedd a phartneriaid perthnasol<br><br>Ceisiadau ar sail tystiolaeth yn cael eu cyflwyno pan mae cyfleoedd yn codi | Problemau YGG penodol wedi'u targedu<br><br>Dioddefwyr wedi'u rhoi wrth wraidd ymatebion i YGG parhaus<br><br>Gostyngiad yn YGG | PDC / Heddlu / cyrff perthnasol Deddf YGG 2014 | Drwy gydol 2025-26 | **Blaenoriaeth 1.1 a 4 Strategaeth Gogledd Cymru Mwy Diogel** |
| **8** | Nodi Troseddau Trefnedig Difrifol (*Serious Organised Crime/SOC*) sy'n dod i'r amlwg a bygythiadau Trais Difrifol gysylltiedig, â gweithio gyda'i gilydd i ddarparu ymateb effeithiol i fygythiadau o'r fath | Grŵp SOC Rhanbarthol ar waith ar gyfer Gwynedd a Môn –i gyflwyno Strategaeth 4P a nodi lleoliadau, unigolion a grwpiau agored i niwed | Atal gweithrediad troseddwyr difrifol a threfnus yng Ngwynedd ac Ynys Môn<br><br>Lleihau achosion o drais difrifol sy'n gysylltiedig â llinellau sirol a'r farchnad gyffuriau | PDC / Grŵp SOC Rhanbarthol | Drwy gydol 2025-26 | **Blaenoriaeth 3 Strategaeth Gogledd Cymru Mwy Diogel** |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **9** | Asiantaethau sy'n cymryd dull partneriaeth ar y cyd ar gyfer gweithredu'r fenter *Clear Hold Build* ym Mangor i gyflawni a chynnal gostyngiadau mewn SOC â throseddau cysylltiedig yn yr ardal | *Cyfnod 'clear'* wedi'i weithredu gan HGC.<br><br>Gweithdy amlasiantaeth i ddatblygu Cynllun 4P – Mehefin 2025<br><br>*Cyfnodau 'Hold' /* 'Build' i'w gweithredu gyda phartneriaid a'r gymuned ehangach<br><br>Dull a arweinir gan y gymuned i nodi atebion tymor hir | Lleihau troseddu, ofn troseddu, adfywio ac adnewyddu ym Mangor<br><br>Mae ymateb lleol i SOC yn gynaliadwy ac yn symud y tu hwnt i dactegau gorfodi confensiynol | PDC / Heddlu Gogledd Cymru (HGC) / Grwpiau Gweithio CHB | Drwy gydol 2025-26 | **Blaenoriaeth 3 Strategaeth Gogledd Cymru Mwy Diogel** |
| **10** | Treialu a gweithredu pecyn hyfforddi SOC pwrpasol ar gyfer partneriaid, gan gynnwys staff awdurdod lleol ar draws adrannau a thu hwnt | Datblygu pecyn hyfforddi – C2<br><br>Peilot gyda rheolwyr/arweinwyr tîm – Ch2<br><br>Trefnu a chyflwyno sesiynau ar gyfer 150+ o aelodau staff i ddechrau gyda chyflwyniad ehangach yn bosibl – C3 + Ch4 | Codi ymwybyddiaeth o droseddau cyfundrefnol difrifol: beth i edrych allan amdano, pa rôl y mae ein partneriaid yn ei chwarae a sut y gallwn ni i gyd wneud gwahaniaeth<br><br>Cydlynu ac ymgysylltu rhagweithiol gan bartneriaid i amddiffyn ein cymunedau rhag bygythiad SOC | PDC / HGC | Drwy gydol 2025-26 | **Blaenoriaeth 3 Strategaeth Gogledd Cymru Mwy Diogel** |
| **11** | Gweithredoedd i atal hunanladdiad ac hunan niwed, yn cynnwys:<br>• Gweithredu yn unol a'r Cynllun Gogledd Cymru ac adrodd ar hyn ar sail cynlluniau unigol i'r ddwy Sir<br>• Aelodau parhaol o'r Fforwm Rhanbarthol<br>• Mynychu a chyfrannu i'r is-grwpiau i ymateb i faterion penodol | Strategaeth newydd Llywodraeth Cymru wedi'i gyhoeddi eleni<br><br>Fforwm yn cyfarfod yn chwarterol | Atal drwy ymateb amlasiantaethol<br><br>Sicrhau cymunedau gwybodus a thosturiol, sydd wedi eu grymuso drwy wybodaeth ac ymwybyddiaeth<br><br>Cymorth a gwasanaethau sy'n diwallu anghenion<br><br>Ymatebion amserol i hunanladdiadau a cymorth tosturiol ar gael i bawb yr effeithir arnynt | PDC / Fforwm Rhanbarthol | Drwy gydol 2025-26 | **Cynllun Cyflawni Llywodraeth Cymru Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio Cymru 2025-2028**<br><br>**Blaenoriaeth 4 Strategaeth Gogledd Cymru Mwy Diogel** |
| **12** | Cyflawni Strategaeth Lleihau Niwed Alcohol newydd Gogledd Cymru 2025-28 sydd â'r nodau canlynol:<br>• Hyrwyddo dull diogel a synhwyrol o yfed alcohol | Strategaeth wedi'i hadnewyddu wedi'i chyhoeddi ym mis Mehefin 2025 | Anogir perthynas fwy diogel ac iachach ag alcohol trwy ddull cydweithredol, sy'n seiliedig ar bartneriaeth | Fforwm Atal a Lleihau Niwed Rhanbarthol / APB | Drwy gydol 2025-26 | **Blaenoriaeth 1.3 Strategaeth Gogledd** |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | • Diogelu teuluoedd a chymunedau ehangach rhag effeithiau negyddol alcohol<br>• Lleihau effaith niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol<br>• Cynhyrchu perthnasoedd gwaith cadarn a llwybrau cyfeirio rhwng darparwyr gwasanaeth | Grŵp Cyflawni i gwrdd yn chwarterol | Lleihau effeithiau niweidiol yfed alcohol ar draws Gogledd Cymru<br><br>Gwella iechyd y cyhoedd | | | **Cymru Mwy Diogel**<br><br>**Cynllun Cyflawni Camddefnyddio Sylweddau Llywodraeth Cymru** |
| **13** | Cyflwyno'r Cynllun Camddefnyddio Sylweddau Rhanbarthol drwy'r Bwrdd Cynllunio Ardal *(BCA/Area Planning Board APB*) | Datblygwyd Cynllun Blynyddol 2025-26 yn seiliedig ar flaenoriaethau allweddol Llywodraeth Cymru<br><br>Yn cael ei fonitro gan Weithredaeth yr APB ac mae diweddariadau'n cael eu darparu i'r PDC | Mae niwed sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau yn cael eu lleihau<br><br>Mae iechyd a lles unigolion a chymunedau yn cael eu gwella<br><br>Amgylchedd mwy cefnogol a chynhwysol i'r rhai yr effeithir arnynt gan gamddefnyddio sylweddau | APB | Drwy gydol 2025-26 | **Cynllun Cyflawni Camddefnyddio Sylweddau Llywodraeth Cymru** |
| **14** | Bydd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (GTAGC) yn parhau i gyflwyno'r rhaglen cyfeirio ieuenctid *Phoenix* i fynd i'r afael ag YGG / problemau ymddgiadol / hunan-barch isel | Parhau i gyflwyno'r rhaglen ymyrraeth yn y rhanbarth<br><br>Pobl ifanc yn cael cyfle i ddysgu sgiliau newydd, rhyngweithio fel rhan o dîm a darganfod talentau | Pobl ifanc yn cael eu haddysgu am bwysigrwydd diogelwch tân a chanlyniadau tanau bwriadol a galwadau ffug<br><br>Mwy o hyder a sgiliau rhyngbersonol i bobl ifanc<br><br>Gostyngiad mewn tanau/YG<br><br>Gostyngiad yn nifer y troseddwyr ailadroddus | GTAGC | Drwy gydol 2025-26. | **Blaenoriaeth 1 yn Strategaeth Gogledd Cymru Mwy Diogel** |

22/11/2024

# Cyngor Sir Ynys Môn
# Adroddiad Sgriwtini

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | **Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio** |
| **Dyddiad:** | **14 Hydref, 2025** |
| **Pwnc:** | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio** |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | **Cyng Dylan Rees** |

## 1. Pwy fydd yr aelod portffolio yn cyflwyno / arwain yr adroddiad?

| Aelod Portffolio | Rôl |
|---|---|
| Amherthnasol | |
| **Swyddog Gwasanaeth (yn cefnogi)** | **Rôl** |
| Anwen Davies | Rheolwr Sgriwtini |

## 2. Pam y gofynnir i'r Pwyllgor Sgriwtini ystyried y mater

Cynorthwyo'r Pwyllgor Sgriwtini i ystyried, cytuno ac adolygu ei flaen raglen ar gyfer 2025/26

## 3. Rôl y Pwyllgor Sgriwtini ac argymhellion

☒Er sicrwydd
☐ Er argymhelliad i'r Pwyllgor Gwaith
☐ Er gwybodaeth

Argymhelliad(ion):
Gofynnir i'r Pwyllgor:
**A1** gytuno'r fersiwn gyfredol o'r flaen raglen waith ar gyfer 2025/26
**A2** nodi'r cynnydd a wnaed hyd yma o ran gweithredu'r flaen raglen waith.

## 4. Sut mae'r argymhelliad(ion) yn cyfrannu at amcanion Cynllun y Cyngor?

Rhaglennu gwaith yn effeithiol yw sylfaen sgriwtini effeithiol mewn llywodraeth leol. Mae ein blaen raglenni gwaith treigl ar gyfer Sgriwtini wedi'u halinio â blaenoriaethau corfforaethol y Cyngor a'r rhaglenni trawsnewid corfforaethol – ac yn sicrhau bod rôl sgriwtini Aelodau yn gwneud cyfraniad go iawn i flaenoriaethau gwella'r Cyngor.

## 5. Themâu sgriwtini allweddol

Amherthnasol



Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg
This document is available in English

## 6. Pwyntiau allweddol / crynodeb

**1. Cefndir**

1.1 Rhaglennu gwaith yn effeithiol yw sylfaen swyddogaeth sgriwtini effeithiol llywodraeth leol[1]. O'i wneud yn dda, gall rhaglennu gwaith fod o gymorth i osod y sylfeini ar gyfer gwaith amserol sydd wedi ei dargedu ar faterion o bwysigrwydd lleol sy'n dangos ble gall sgriwtini Aelodau ychwanegu gwerth. Mae arfer dda'n hyrwyddo dau fater allweddol a ddylai fod wrth galon y flaen raglen waith sgriwtini:

i. Her mewn perthynas â blaenoriaethu ffrydiau gwaith

ii. Yr angen am ymagwedd a arweinir gan aelodau a rhyngwyneb gyda swyddogion.

**1.2 Egwyddorion sylfaenol rhaglennu gwaith yn dda[2]**

- Ni ddylai rhaglennu gwaith fod yn broses "cychwyn-stopio"
- Rhaglenni gwaith sy'n cyd-fynd â'i gilydd ar gyfer pwyllgorau sgriwtini gwahanol
- Cydbwysedd rhwng gwahanol ddulliau o weithio
- Proses effeithiol ar gyfer rhoi gwybod am / uwch gyfeirio materion i'r Pwyllgor Gwaith
- Mewnbwn a sylwadau cydranddeiliaid mewnol
- Gweithio'n agos â'r Pwyllgor Gwaith
- Cysylltiadau gyda'r Adroddiad Sgriwtini Blynyddol (teclyn ar gyfer gwerthuso a gwella)

**2. Cyd-destun Lleol**

2.1 Mae'r arfer o raglennu gwaith ymlaen llaw wedi cael ei hen sefydlu ac mae'r rhaglenni gwaith yn raglenni treigl sy'n canolbwyntio ar ansawdd y gwaith craffu ac sydd â llai o eitemau er mwyn ychwanegu gwerth. Maent yn declyn pwysig i gynorthwyo Aelodau i flaenoriaethu eu gwaith ac fe'u trafodir gyda'r Tîm Arwain a'r Penaethiaid Gwasanaeth. Bydd y ddau bwyllgor yn adolygu cynnwys eu rhaglenni gwaith yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn berthnasol ac yn adlewyrchu blaenoriaethau lleol. Mae ein trefniadau lleol ar gyfer cynllunio ymlaen bellach yn rhoi mwy o ffocws ar:

- Agweddau strategol
- Ymgynghori gyda dinasyddion / cydranddeiliaid eraill a chanlyniad hynny

[1] A Cunning Plan? Devising a scrutiny work programme, Canolfan Craffu Cyhoeddus (Mawrth 2011)
[2] A Cunning Plan? Devising a scrutiny work programme, Canolfan Craffu Cyhoeddus (Mawrth 2011)

- Blaenoriaethau Cynllun y Cyngor a phrosiectau trawsnewid
- Risgiau a gwaith arolygu a rheoleiddio
- Materion ar flaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith.

**Canlyniad**: rhaglenni gwaith treigl ar gyfer pwyllgorau sgriwtini sydd wedi'u halinio â blaenoriaethau corfforaethol.

2.2 Cadeiryddion pwyllgor sy'n arwain ar ddatblygu blaen raglenni gwaith a'r rhaglenni hynny'n cael eu cyflwyno i'r Fforwm Cadeirydd ac Is-gadeiryddion Sgriwtini yn fisol ac ar gyfer eu cymeradwyo ym mhob cyfarfod arferol o'r pwyllgorau sgriwtini. Ystyrir y Fforwm fel cyfrwng pwysig ar gyfer goruchwylio'r rhaglenni hynny a thrafod blaenoriaethau ar y cyd.

2.3 **Ymagwedd "Cyngor cyfan" tuag at Sgriwtini**: mae ein rhaglenni gwaith yn darparu sylfaen gref ar gyfer ein rhaglenni gwella gan sicrhau bod y rôl y mae Sgriwtini yn ei chwarae yn nhrefniadau llywodraethiant yr Awdurdod yn:

i. Cefnogi proses gwneud penderfyniadau sy'n gadarn ac yn effeithiol
ii. Gwneud cyfraniad go iawn i flaenoriaethau gwelliant y Cyngor
iii. Parhau i esblygu.

**3. Materion ar gyfer eu hystyried**

3.1 Mae'r Pwyllgor Sgriwtini yn derbyn diweddariadau rheolaidd ar weithrediad ei flaen raglen waith. Mae copi o'r rhaglen waith gyfredol ar gyfer 2025/26 ynghlwm fel **ATODIAD 1** i'r adroddiad hwn fel y gellir cyfeirio ati ac mae'n cynnwys newidiadau a wnaed i'r rhaglen waith ers i'r Pwyllgor ystyried y ddogfen ddiwethaf[3]

3.2 Lle mae hynny'n briodol, gellir ychwanegu eitemau at flaen raglen waith y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn ddinesig. Gellir cyflwyno ceisiadau am i eitemau ychwanegol gael eu cynnwys ar y rhaglen waith ar gyfer eu ystyried drwy lenwi Ffurflen Gais Aelodau yn gofyn am i eitem gael ei hystyried ar gyfer Sgriwtini. Yn y lle cyntaf, caiff y ceisiadau eu hystyried gan y Fforwm Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion, gan ddefnyddio'r meini prawf isod:

- Amcanion strategol a blaenoriaethau'r Cyngor (fel y cânt eu hamlinellu yng Nghynllun y Cyngor)
- Gallu'r Pwyllgor i ddylanwadu ar ac/neu i ychwanegu gwerth ynghylch pwnc penodol (bydd angen cwblhau Ffurflen Prawf Arwyddocâd Sgriwtini).

## 7. Asesiadau effaith

7.1. Effeithiau posibl ar grwpiau gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010

| |
|---|
| Amherthnasol |

[3] Cyfarfod o'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio a gynhaliwyd ar 16 Medi, 2025

7.2. Effeithiau posibl ar bobl sy'n dioddef anfantais economaidd-gymdeithasol (penderfyniadau strategol)

| |
|---|
| Amherthnasol |

7.3. Effeithiau posibl ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

| |
|---|
| Dim yn berthnasol yn achos y mater trosfwaol hwn ond bydd yn cael ei ystyried fel rhan hanfodol yn ystod y broses o baratoi ar gyfer cynigion penodol a fydd yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor eu hystyried. |

7.4. Effaith posibl ar darged Carbon Sero Net y Cyngor -

| |
|---|
| Amherthnasol |

**8. Goblygiadau ariannol**

| |
|---|
| Amherthnasol |

**9. Atodiadau**

| |
|---|
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio 2025/26 |

**10. Awdur yr adroddiad a phapurau cefndir**

| |
|---|
| Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini, Cyngor Sir Ynys Môn, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni LL77 7TW |

# RHAGLENNU EITEMAU AR GYFER SGRIWTINI MAI, 2025 → EBRILL, 2026
**[Fersiwn dyddiedig 30/09/25]**

Tudalen 49

**Nodyn i Randdeiliaid a'r Cyhoedd**
Mae yna **Brotocol Siarad Cyhoeddus mewn Pwyllgor Sgriwtini** wedi'i gyhoeddi gan y Cyngor.
Os ydych yn dymuno siarad ar unrhyw eitem benodol mewn Pwyllgor Sgriwtini yna dylech gofrestru eich diddordeb drwy gyflwyno cais ysgrifenedig gan ddefnyddio'r ffurflen sydd ar gael cyn gynted â phosibl ac o leiaf 3 diwrnod gwaith clir cyn cyfarfod y Pwyllgor penodol. Cewch wybodaeth am y cyfarfod, a pha eitemau fydd yn cael eu trafod wrth ddarllen y Blaen Raglen Waith yma. Cysylltwch â'r Rheolwr Sgriwtini os oes gennych unrhyw ymholiadau [Anwen Davies: AnwenDavies@ynysmon.llyw.cymru ]

| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO |
|---|---|
| | |
| **Mai, 2025 ( 20/05/2025)** | **Mai, 2025 (20/05/2025)** |
| Ethol Cadeirydd: 2025/26 | Ethol Cadeirydd: 2025/26 |
| Ethol Is-gadeirydd: 2025/26 | Ethol Is-gadeirydd: 2025/26 |
| | |
| **Mai, 2025 (21/05/2025)-Cyfarfod Ychwanegol** | |
| Canlyniadau'r Ymgysylltiad ar y Ddarpariaeth Addysg Ôl-16 | |
| Adeilad Ysgol Uwchradd Caergybi | |
| | |
| **Mehefin, 2025 (17/06/2025) – Ch4** | **Mehefin, 2025 (12/06/2025) – Addysg / Y Gymraeg** |
| Monitro Perfformiad: Sgorfwrdd Corfforaethol Ch4: 2024/25 | Y Gymraeg<br>• Adroddiad Blynyddol ar Safonau'r Gymraeg: 2024/25<br>• Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022-2032: Mesur Cynnydd→2024/25 |
| Dogfen Gyflawni Flynyddol: 2025/26 | Rhaglen Ariannol Llywodraeth y DU [Cronfa Ffyniant Bro Ynys Môn – Mesur Cynnydd] |
| Atgyweirio To Adeilad Canolfan Addysg y Bont: Gwersi a Ddysgwyd | |
| | |
| **Eitem er gwybodaeth:** Adroddiad Cynnydd Ch 4 2024/25 Uchelgais Gogledd Cymru | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2025/26 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2025/26 |
| | |
| **Dim cyfarfod wedi'i raglennu** | **Gorffennaf, 2025 (15/07/2025) - Gwasanaethau Brys** |

| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO |
|---|---|
| | Heddlu Gogledd Cymru |
| | Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru |
| | |
| | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2025/26 |
| | |
| **Medi, 2025 (17/09/2025) – Ch1** | **Medi, 2025 (16/09/2025) – Cydweithio gyda Grŵp Llandrillo Menai a Phrifysgol Bangor** |
| Monitro Perfformiad: Sgorfwrdd Corfforaethol Ch1: 2025/26 | Grŵp Llandrillo Menai |
| Argymhellion Grŵp Tasg a Gorffen Sgriwtini: Gosod Tai'r Cyngor – diweddariad ar gynnydd | Prifysgol Bangor |
| Aelodaeth y Panelau Sgriwtini | Aelodaeth y Panelau Sgriwtini |
| | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2025/26 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2025/26 |
| | |
| **Hydref, 2025 (15/10/2025)** | **Hydref, 2025 (14/10/2025) – Trosedd ac Anrhefn** |
| Adroddiad Blynyddol Bwrdd Partneriaeth Gogledd Cymru (Rhan 9): 2024/25 | Menter Môn |
| Adroddiad Blynyddol Gwasanaeth Rhanbarthol Cynllunio at Argyfwng: 2024/25 | Adroddiad Blynyddol Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd ac Ynys Môn: 2024/25 |
| Canlyniadau'r Ymgynghoriad ar y Cynnig i Adleoli Dysgwyr Ysgol Uwchradd Caergybi i Adeilad Ysgol Newydd ar gyfer Dysgwyr 11-18 Oed | |
| Moderneiddio Cymunedau Dysgu: Achos Amlinellol Strategol (eitem eithriedig) | |
| | |
| **Eitem er gwybodaeth:** Uchelgais Gogledd Cymru:<br>• Adroddiad Blynyddol: 2024/25<br>• Adroddiad Cynnydd Ch1: 2025/26 | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2025/26 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2025/26 |
| | |
| **Tachwedd, 2025 (18/11/2025) - Ch2** | **Tachwedd, 2025 (13/11/2025) – Addysg** |
| Monitro Perfformiad: Sgorfwrdd Corfforaethol Ch2: 2025/26 | Canllawiau gwella ysgolion: fframwaith ar gyfer gwerthuso, gwella ac atebolrwydd |
| Adroddiad Hunanasesiad, Perfformiad a Llesiant 2024/25 | Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Addysg |
| Sefydlu Cyllideb 2026/27 (cyllideb refeniw) - cynigion drafft cychwynnol | Cynllun Strategol Digidol Addysg |
| Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Adnoddau | |
| | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2025/26 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2025/26 |
| | |

| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO |
|---|---|
| | **Tachwedd, 2025 (26/11/2025) – Iechyd** |
| | Archwilio Cymru: Adroddiad Gofal Brys ac Argyfwng: Llif allan o'r Ysbyty – Rhanbarth Gogledd Cymru-mesur cynnydd |
| | Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru |
| | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr |
| | |
| | |
| **Ionawr, 2026 (21/01/2026) (bore)** | **Ionawr, 2026 (20/01/2026)** |
| | Diogelu Corfforaethol |
| | Rhaglen Ariannol Llywodraeth y DU [Cronfa Ffyniant Bro Ynys Môn – Mesur Cynnydd] |
| | Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn:<br>• Adroddiad Blynyddol 2024/25<br>• Trefniadau llywodraethiant / craffu cynnydd ar wireddu'r Cynllun Llesiant |
| | |
| | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2025/26 |
| | |
| **Ionawr, 2026 (21/01/2026) (prynhawn)** | |
| Moderneiddio Cymunedau Dysgu - Adroddiad Gwrthwynebu a dod i Benderfyniad Terfynol am Ysgol Uwchradd Caergybi | |
| Cynllun Strategol Tuag at Sero Net | |
| **Eitem er gwybodaeth:** Adroddiad Cynnydd Ch2: 2025/26 Uchelgais Gogledd Cymru | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2025/26 | |
| | |
| **Chwefror, 2026 (18/02/2026) – Cyllideb 2026/27** | **Chwefror, 2026 (12/02/2026) - Addysg** |
| Cynigion Drafft Terfynol Cyllideb 2026/27 – refeniw a chyfalaf | Partneriaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad Gwynedd ac Ynys Môn |
| Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Adnoddau | Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Addysg |
| | Y Gronfa Ffyniant Gyffredin (i'w gadarnhau) |
| | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2025/26 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2025/26 |
| | |
| **Mawrth, 2026 (18/03/2026) - Ch3** | **Mawrth, 2026 (17/03/2026)** |

| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO |
|---|---|
| Monitro Perfformiad: Sgorfwrdd Corfforaethol Ch3: 2025/26 | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai: 2026/2056 | Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb: 2024/25 |
| | Porthladd Rhydd Ynys Môn – mesur cynnydd |
| | |
| **Eitem er gwybodaeth:** Adroddiad Cynnydd Ch3:2025/26 Uchelgais Gogledd Cymru | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2025/26 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2025/26 |
| | |
| **Ebrill, 2026 (22/04/2026)** | **Ebrill, 2026 (21/04/2026)-Taclo Tlodi** |
| | Cyngor ar Bopeth Ynys Môn |
| | Medrwn Môn |
| | Rhaglen Cymunedau am Waith a Mwy: Adroddiad Blynyddol 2024/25 |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2025/26 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2025/26 |
| | |



**Eitemau i'w rhaglennu**

| **Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol** | **Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio** |
|---|---|
| Cyfrifiad 2021 | Cynllun Gweithredu Llety Sipsiwn a Theithwyr |
| Rhaglen Strategaeth Moderneiddio Cymunedau Dysgu a Chryfhau'r Gymraeg | Gwella Dibynadwyedd a Gwytnwch ar draws y Fenai |
| Cynllun Strategol Man-ddaliadau 2025-2030 | Effaith Twristiaeth ar Gymunedau Lleol Ynys Môn (penderfyniad gan y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio, 21/06/2023) |
| Adroddiad Cynnydd Ch4: 2025/26 Uchelgais Gogledd Cymru | Cynllun Datblygu Lleol Ynys Môn |
| Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru | Ardoll Twristiaeth Lleol i Gymru |
| Cynllun Strategol Iechyd a Diogelwch | Digartrefedd Ynys Môn |
| | Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru |
| | Rhaglen Ariannol Llywodraeth y DU [Cronfa Ffyniant Bro Ynys Môn]- Mesur Cynnydd] (Mehefin / Gorffennaf 2026) |